YR YMOFYNYDD.

Rhif 61.] MEDI, 1852. [Cyf. V.

"PROFWCH BOB PETH; DELIWCH YR HYN SYDD DDA."—PAUL.

Mewn Cyhoeddiad a broffesa fod yn RHYDD ni ellir disgwyl i ni fod yn atebol am gywirdeb syniadau ein Gohebwyr."—GOL.

IOLO MORGANWG.

(*Parhad o Tudal* 187.)

PAN ddychwelodd y bardd adref o Lundain i wlad ei enedigaeth, yr oedd cariad at lenyddiaeth wedi suddo yn rhy ddwfn yn ei feddwl, iddo gyfyngu ei hun at orchwylion celfyddydol yn unig; ac er ei fod wedi dyfod yn gelfydd yn ei alwad, ac yn alluog i gyflawni cerfiadaeth addurnol, cafodd fod y llwch man a esgynai oddiwrth y meini, yn niweidio ei ysgyfaint; a chyn hynny, dymunai gael rhyw alwad mwy iachus i gynnal ei deulu.

Yn y flwyddyn 1797, agorodd fasnach-dŷ ym Mhont y Fon *(Cow-bridge)*, yr hwn a elwir y rhan fynychaf yn Bont-faen, oherwydd fod y gair *bon*, a *henfon*, am fuwch neu ŷch (gwel Richards, dan *Bon* a *Henfon)*, wedi myned allan o arferiad. Yno gwerthai lyfrau, a phethau cyffelyb, ynghyd a'r amrywiol bethau a elwir *groceries*. Ym mhlith yr olaf oedd siwgr yr India ddwyreiniol, o herwydd ei fod yn ffrwyth llafur rhydd, ac ei fod yntau am gefnogi pob peth a dueddai i ddileu y gaeth-fasnach a'i chreulonderau; arwyddoccäi fod hwnnw ar werth trwy'r hysbysiad canlynol:—*East India Sweets, uncontaminated with human gore;* ac y mae Mr. Waring yn dweyd mai Iolo oedd yr unig ddyn yn Nghymru a werthai y nwydd hwnnw ar y pryd. Cymmerodd un dygwyddiad difyrus iawn le tra'r oedd y bardd yn llyfrwerthydd; ac er fod y chwedl yn dra hyspys, y mae yn werth ei hadrodd unwaith etto. Yr oedd yn gwybod fod dau ddyn o'r enw Rich a Curtis, y pryd hynny, yn trigo ym Mhont-y-Fon, yn arfer gwneud eu hunain yn ysbiwyr ar ei ymddygiad, gan obeithio ei faglu mewn rhyw ymadrodd anghyfreithlon mewn cysylltiad a gwleidiadaeth neu dduwinyddiaeth; ac yr oedd yntau am gael ychydig o ddifyrwch o honynt hwythau. Gan hynny, gosododd ym mhlith ei lyfrau un a'r llabed *The Rights of Man;* a gwelwyd y teitl gwaharddedig yn lled fuan gan yr hebogiaid hyn; daeth un o honynt i mewn, prynodd y llyfr, ac wrth fyned allan, gwenodd ar ei gyfaill

dan feddwl fod yr hen ŵr wedi dyfod i'r rhwyd o'r diwedd. Ond erbyn agor y llyfr, gwelodd mai Y Bibl oedd y llyfr a brynasai! Cafodd siomedigaeth fawr, a chan hynny dychwelodd, a chyhuddodd yr hen fardd o fod yn dwyllwr; ond attebai hwnnw, "nag wyf, nid wyf fi yn dwyllwr, yn y llyfr yna cewch *freiniau anwylaf* dyn, ac y mae yn dda gennyf ei fod wedi dyfod i eich dwylaw am unwaith yn eich bywyd." Ar hynny aeth yr ysbiwyr allan yn llawn digllonedd, a phan ddaeth y chwedl ar gyhoedd, parodd eu siomedigaeth lawer o ddifyrwch, gan y chwarddai pawb am ben y drwglunwyr.

Dwy flynedd wedi hynny, bu yn ymweled a Gogledd Cymru, ac yno y mae lle i gasglu iddo gynnal gorsedd, oddiwrth yr hysbysiad canlynol yn niwedd yr ail gyfrol o'i Hymnau :—

"GWIR YN ERBYN Y BYD.

"CYWYDD GORYMBIL AM HEDDWCH,

"A ddatganwyd ger bronn Beirdd Ynys Prydain, yng Ngorsedd Gyfarch, ar Frynn Dinorweg, yn Arfon, ar Wyl yr Alban Elfed, pann oedd oed Crist yn 1799."

Y mae'r Cywydd wedi ei gyhoeddi eisioes, ond gan fod ei Hymnau ef yn anhawdd i'w cael, dyfynaf ef yma; a barnaf y diolchir imi am hynny o ddywenydd, am fod barddoniaeth Gymraeg Iolo yn llawer amgenach na'i fydryddiaeth Saesonaeg :—

[TALFYRRIAD].

Os cân o lwys anian serch,
HEDD dyner! a faidd d' annerch,
Erglyw di'n llef o'th nefoedd,
Erglyw'r cwyn a'r galar coedd.
Blin, ym mhob cwrr, cyflwr caeth,
Ein byd gann anwybodaeth.

Drwg a'i dras dewisasom,
Ar ddaioni ffroeni'n ffrom;
Dewis, nid golau diwall,
Yn nhês dydd, ond y nos dall;
Ag angau (tâl gwŷniau gwŷd)
Llwyra' bai, yn lle'r bywyd.

Rhyfel, yn gawr, sy'n rhwyfaw
Fal tonnau'r aig, fal draig draw;
A'i anraith, yn faith ei fâr,
O Dduw! 'n cylchynu'r ddaear.

Cawn ddirwyllt fab Cynddaredd,
Hyd ein gwlad, yn dwyn ei gledd;
Myfyria'n flin ei drin draw,
Yn agwrdd mae'n ffyrnigaw:
Câr ef oddeithio trefi,—
Am waith broch mae'n groch ei gri;
Och o'i waedd! gann ymchwyddaw,
A'i lid fal mellten o'i law;
A'i ddefawd, iddo 'n ddifyr,
Bod dros ei draed mewn gwaed gwŷr;
Lladd oll fo'n lluddio'i 'wyllys
Ei gais ef, i'w lef, o'i lys;
Hyll olwg! a'i holl elwch
Yw gruddfan y truan trwch.

Och o'r Milwr! anwr yw
D'wedaf, er dewred ydyw;
Byw mewn gradd yn ei addef,
A wedd i wr, ni faidd ef;
A fedd ei swydd ni faidd sôn,
Ni fynn gof, am fyw'n gyfion;
Mae'n ofni'r Gwir yn irad,
A phawb a'i mynn, a phob mad;
Mwy na'r bedd ofna'r heddwch,
A'i wynfyd pur i'w fflur fflwch.

Nid gwrol ond a garo
Gyfiawnder, yn bêr, lle bo:
Y gwrol hyff drugaredd,
A rhoi pob cannerth i'r Hedd;
Dwyn yn ystig, o'r dig du,
Oll i'w nawdd, a'u llonyddu;
Gwared, a choledd gwirion,
A'i holl fryd, heb wall i'w fronn.

Am alaeth y mae'r milwr,
I'w hau drwy'r byd, ynfyd wr;
Gormesu a garw ymosod;
Ar ladd dyn y glŷn am glod:
Ar benn pob cam rhy'r fflam fflwch;
Gwae'r eiddil a gâr heddwch:
Cair e'n frwysg yn ymrwysgaw,
A llid arth, y mann lle daw;
Yn poeri tân, peri twrf,
Ag ennyn drwy'r byd gynnwrf;
Difrawd, a thrallawd, a thrais,
Nid amgen, nod ei ymgais.

I'n dydd ni, moli milwr
Sydd uchaf lais ar gais gwr:

Mawr yw nwyf y ffugddwyfawl,
Am waith trin pob min a'u mawl;
Ei enw a'i fawl y sy'n faith
Ar gân hunangar gweniaith;
Ar ei ol (ef addolant)
Y llu truthgar anwar ânt;
A garw floedd gorfoleddant,
Os eu traed mewn gwaed a gânt;
Carant ymladd, a lladd llu
A faidd ymdangnefeddu;
A faidd sôn am Wirionedd,
Lleufer hardd a llafar Hedd.
Gann faint y dir annhiriawn,
Amddifaid, gweiniaid, a gawn
Yn oll o'n ffyrdd, myrdd, a mwy,
Yn gostwng dann flin gystwy;
Gweddwon drwy'r wlad yn gweiddi,
Llif o gŵyn oer.—llef, "Gwae ni!"
Gwae! gwae! y mae, ym mhob mann,
I'w ganfod,—Môr o gwynfan!

O rhyfoli rhyfelwr,
Ymchwydda'n gerth, anferth wr;
A gwawl cydwybod fe gyll;
Yn y diwedd a'n dywyll:
Dann y Nef ni ŵyr ef rin
O fudd, ond gwaedgar fyddin;
Y gerdd feunyddiol a gâr
Y Cûn gwael, yw cwyn galar;
Ei fwydfaeth yw llef adfyd,
Lledu'r bâr, trallodi'r byd.

Prophwyd wyf i'm nwyf a'm nerth,
Bwriadfawr i'm cân brydferth:
Y gauaf duaf i'w daith,
Hir ammhorth, â'n llwyr ymmaith;
Daw Haf, a gwênaf o'i gael,
Iach dywydd Heddwch diwael;
Daw i'n hwybren dien dês,
Awyr gain, a'i hawr gynnes;
Cethlydd. yn datgan coethlef
Gwir a'i nerth, o gaerau Nef!
Y deddfawl, pob mad addfwyn
A'i gwel, a derfydd ei gŵyn;
Er wylaw, a hir alaeth,
Er awr brudd pob cystudd caeth,
I'w llwyr les, daw oll i'r lann,
I'r gwynfyd, o'u hir gwynfan.

Fy Marddair, y gair a'm gwedd,
Yw gair anwyl Gwirionedd;
Gwir a'i lef o Nef yn wâr;
Iaith Duw hyd eitha' daear!

Cawn adwedd Teyrnas Heddwch;
Daw'n bêr yn ei ffloywder ffiwch
Diwedd rhyfel a welir,
Dydd gweinio cledd, a Hedd hir:
Nwyf i lu nefol Awen,
A dyn i'w bwyll, a Duw'n ben!

"Duw Dad! O deued y dydd,"
I'w llafurwaith lleferydd
Bydoedd pob llwybr o'r wybren
Lle bloedd eu miloedd,—"Amen!"

Dangos dy benn ysblennydd,
O'th Nef, O Dangnef! i'n dydd;
Llef gadarn sy'n galw arnad,
Yn glaer, o bob cwrr o'n gwlad;
Dyred, mae'r doeth yn d' aros,
Mal claf am yr haf a'i ròs;
Ir yw'n serch i'r ynys honn,
O Dyred! brysia'n dirion,
I'th haddef, lle'th wahoddir,
Cai oll yn d' arfoll i dir.
Bydd angel i'n tawelu,
A genau gwâr, a gwên gu;
Iawn dy waith, ag, yn dy wawl,
Dynofiwn i fyd nefawl;
A rhodiwn ffyrdd Paradwys,
A'i thir ffraw yn dy law lwys.

Er maint ein gwae, mae, i'n mysg,
A gâr Hedd, a gair addysg;
Rhai'n dystion gwychion i'r Gwir,
A'i wawl i'n plith a welir;
Taer eu llais, er maint yw'r llid,
A'r amledd a'u mawr ymlid;
Er maint budredd llygredd llwyr,
Yma soniant am synwyr.
A diball wawl cydwybod,
Gair eu Naf, y Gwir a'i nod.

Dyred, O Dangnef dirion!
At a'th gais, a'u llais yn llonn;
Awen y gerdd, yn eu gwaith,
Sy'n gweini sain eu gwiniaith;
Cân a rydd, cain yw'r oddeg,
Yn ein mysg ei dysg yn deg.
E'th fawl Beirddion gwychion gant,
A'u meliaith hwy'th ganmolant;
Adroddant ein Derwyddon
Gân newydd, a dedwydd dôn;
Ar bob brynn, yn nhês gwynn gwawl,
Gawr, a'i floedd gorfoleddawl:
Rhodiant gerddorion rhywdeg
I'th ddilyn, à'r delyn deg;
E glyw sêr, pand gloyw y sain!
I'r arwest a'th arwyrain;
Cyfunllef â'r Côr Nefawl
Y canwn, fyrddiwn, dy fawl.
Cân a dyrr, â difyr dôn,
Y Culi o bob calon;
Cân a'i bloedd yn cyhoeddi,
O Nef, ymwared i ni;

Ag Ynad Nef yn gannerth
I'n byd ni, heb oedi nerth:
Derfydd ein ochain dirfawr
Ger dy wên,—egor dy wawr;
Derfydd nos hagr ein dagrau
Ger haul a gwres y tês tau;
O'r llwch i'r lann daw'r gwann gwâr,
O'n golwg fe ffy'n galar.
Tro'n ol, wrth arch ein dolef,
I'n daear ni, o dir Nef;
Dere'n fwyn, i'n dwyn yn d'ol,
I noddfa'r Pwyll cynneddfol;
Lle tywyn gwên llawenydd
Yn dy wawl, a bythawl bydd;
Lle ni chair ffordd i'r gorddwy,
Na threisiwr, na milwr, mwy,

Duw! hyd attad! Tad wyt ti,
O ing addoer mae 'ngweddi;
Darostwng ein dir dristyd,
Bâr creulon beilchion y byd;
Dangos dy hun, Gûn Gwiwnef,
Lle'th gais, fy Ner! llawer llef;
Rho'th farn, bydd Ynad arnom,
Lludd fôrgymmlawdd ein ffrawdd ffrom:
O Dduw! gwel fawredd y gwall
A ddaw o'n gwŷn diddeall;
O'n beiau (drwg yw'n bywyd),
I'r iawn bwyll arwain y byd;
Yn lle gwaith blin y trin trwch,
O Dad hyddawn! dod heddwch!

Ion wyd, er difa'n adwyth,
Bydd Frenin pob llin, pob llwyth;
A dyn, ym mhob daioni,
Yn addas i'th Deyrnas di.

Duw a phob Daioni.

Barnaf mai dyben y bardd yn y Gogledd oedd gwneud casgliadau at y *Myvyrian Archaiology*; a chan i'r antur hynny fod o bwys mewn gwahanol ystyriaethau, rhaid imi draethu'r hanes gyda mwy o fanylrwydd.

Yn y flwyddyn 1799, ffurfiwyd cynllun i gyhoeddi cymmaint ag oedd ar gael o hen farddoniaeth a hanesyddiaeth y genedl Gymreig; yr oedd y llafur i ddisgyn ar William Owen (Pughe) a'r hen fardd, a'r draul ar Owain Myvyr; ac yr oedd Iolo ac Owen i fyned ar draws y wlad i gasglu ysgrifau, ac i wneud adysgrifiadau o'r rhai na allent fenthycca, ac i ymweled a phrif lyfr-gelloedd Lloegr a'r Dywysogaeth. Pan oedd Iolo ar yr hynt yma, denai sylw y trigolion pa le bynag yr elai; trwy ei ymddygiadau rhyfedd a'i ymddangosiad anarferol—weithiau yn syllu am oriau ar hen fedd-feini wrth adysgrifio y llythyrenau arnynt—pryd arall yn darllen llyfrau yn ei eistedd mewn adfeilion hen gestyll—a phryd arall yn ymofyn cennad gan awdurdodau eglwysig, i chwilio eu hen gof-lyfrau am ffeithiau hanesyddol; a phan glywid fod y dieithr yn siared Lladin a'r offeiriad—un o ddoethion Rhydychen—ai y chwedl ar led, a mwy-fwy y tyfai rhyfeddod y bobl anwybodus, a choelgrediniol:—

> "Clodforid ef gan bawb am ddoethder dwys—
> Ysgrifai ef, a gwyddai rif a phwys;
> 'E fedrai, meddynt, fesur tir a thai,
> Cyfarwydd oedd a llanw môr a'i drai,
> Os gwir y son—'E oedd mor dda ei go'
> Nes y dadleuai'r person lawer tro;
> Er colli'r pwnc 'e haerai fod yn wir,
> Mewn geiriau dyfnion a dysgedig hir;
> Nes synai'r werin, oedd o'u cylch yn awr,
> I ben mor fychan gynnwys dysg mor fawr."
>
> *Goldsmith.—Cyfieithad Gwenffrwd.*

Weithiau aeth ymofyngarwch y bobl yn rhy galed i'w amynedd, gan ei orfodu i fyned i ryw le mwy dirgel, ac arferai adrodd chwedl iddo gael ei gyfrif yn swynwr mewn un pentref gwledig, ac iddo gadarnhau y dyb honno trwy roddi cynghor synwyrol i ryw ffermwr onest, a'i osod ar y ffordd i adfeddu ceffyl oedd wedi myned ar goll trwy ladrad. Yn yr olrheiniad hyn

bu yn llwyddiannus tu hwnt i'w ddisgwyliadau ; ac y mae yn gyfreithlon ini dybied na fuasai'r *Myvyrian Archaiology* yn gweled gwyneb haul, heb ffrwyth ei lafur ef ar yr achlysur yma. Y mae yn amlwg oddiwrth gynnwysiad y cyfrolau hyn, ac yn neillduol yr ail a'r drydedd, mai Iolo oedd y wenynen ddiwyd yn y cyfundeb ; ond ymddengys oddiwrth ei adroddiadau ef, i'w lafur fod yn ddifudd i'r llafurwr.

Y mae yn ddigon gwybyddus er ys blynyddau lawer, fod anghydfod wedi cymmeryd lle rhwng y bardd a'i gyd-olygwyr ; ac y mae yn llawn mor adnabyddus fod y bardd yn ei ddyddiau diweddaf yn arfer dirmygu y Dr. Owen Pughe ym mhob modd y gallai. Y mae yn amlwg fod cyfeillach mawr rhyngddynt un amser ; yr oedd y rhan fwyaf o ddefnydd ei ragymadrodd helaeth i waith Llywarch Hen (1797), wedi ei gael gan Mr. Owen oddiwrth hen fardd Morganwg *(Colyn Dolphin)* ; derbyniodd hefyd amryw o gywyddau yn ei gyhoeddiad o waith Dafydd ab Gwilym (1789), o law yr un gwr ; y mae yn amlwg fod yn agos i hanner defnydd *Owen's Cambrian Biography* wedi deillio oddiwrth yr hynafiaethydd ; ac os gwir y dywediad i Iolo ddweud "Milton lost!" ar ol cydmaru *Coll Gwynfa* a *Paradise Lost* y bardd Saesonaeg, y mae yn ofynol ini gredu fod gan yr hen fardd olwg mawr ar y cyfeithydd, cyn y buasai yn cyhoeddi barn mor anghywir ac anghyfiawn. Ond daeth cyfnewidiad dros freuddwyd y gwron ; ac yn y blynyddau canlynol, nid oedd yn bosibl i'w dafod a'i ysgrifell afaelu mewn geiriau digon enllibus—yn 1797 nid oedd Mr. Owen ond ychydig yn is na'r angylion ; ond yn 1800, yr oedd y bardd wedi myned i'r eithafoedd gwrthwynebol, ac yr oedd yr angel wedi myned yn gythraul perffaith.

Ar un achlysur mewn cyfansoddiad cystadleuol, yr oedd yr awdwr wedi dweyd, "See *Pughe's Dictionary*," ac ysgrifenodd y beirniad, Iolo, yr attodiad canlynol, "See the greatest fool in existence." Mewn llythyr amseredig Ebrill, 23ain, 1809, dywed, "Gobeithiaf nad ymddibyna fy mab ar *un nawdd*, ar un *Owain Myfyr*, ar un yn addas i'w enwi gydag ef."* Mewn llythyr arall, Ionawr 16eg, 1810, dywed, "Y mae Mr. Owen—neu yr oedd yn ddiweddar —wrth *ei hen grefft o wneuthur basgedi*,—gwneud basged efallai i ddwyn o amgylch nwyfau hynod *Johanna Southcote*. Meddyliais un amser fod Mr. Owen yn rhyw gymmaint o athronydd ; meddyliais hefyd fod *Owain Myfyr* yn ddyn onest—mawr y camsyniais yn y fath olygiadau." † Gofynwyd iddo gydweithredu ag awdwr y *Geiriadur* i gyhoeddu Hanes Cymru ; ac mewn llythyr, amseredig Mai 3edd, 1813, y mae yn atteb fel y canlyn (h. y. mewn cyfeithiad) :—

"Yr wyf wedi penderfynu na ysgrifenaf byth mewn cyssylltiad ag un dyn arall, pwy bynag y byddo, a lleiaf oll gyda William Owen, yr hwn trwy ei *hobbyhorsisms* sydd wedi hollol ddistrywio pob peth a gymmerodd mewn llaw. Yn ei *Eiriadur* a'i *Rammadeg*, y mae wedi dwyn orgraff anwaraidd *(barbarous)* i mewn, ac acceniad drygsain echryslawn ; yn ei *Cambrian Biography*, y mae hanner yr erthyglau yn gyfeiliornus. Cymmerodd arno i roddi desgryfiad cywir o'r gwahanol leoedd yn y dywysogaeth i Mr. Nicholas

* "I hope he (i. e. Ab Iolo) will never trust to any *patronage*, to any *Owain Myfyr*, to any fit to be named with him."—*Cambrian Register*, iii. 373.

† "Mr. Owen is, or lately was, at his *old trade of basket-making*, manufacturing a basket possibly for hawking about *the curious wares of Johanna Southcote*. I thought Mr. Owen, at one time, a bit of a philosopher. I also thought *Owen Myfyr* to be an honest man ; how have I been mistaken in such opinions."—*Cambrian Register*, iii. 376.

Carlyle; ac y mae wedi gwneud y camsyniadau amlyccaf. Y mae'r cymmydau yn fynych yn cael eu gosod gan milldir o'u lle priodol; yn y map a dynnodd ar gyfer *Warrington's History of Wales*, y mae wedi gosod y cwmmwd mwyaf gorllewinol ym Morganwg, yn eithaf dwyreiniol y sir; * ac y mae cwmmwd arall a ddylai fod ym mhell yn sir Gaerfyrddin, yn cael ei osod ar lan y môr rhwng Nedd a Thywe † (Tawe y dylai fod). Llwythodd *Chalmers' Caledonia* a'r amryfusedd mwyaf cywilyddus. Yn yr *Archaiology*, ‡ y mae wedi cyfnewid yr orgraff i'r dull y mae yn ei *Rammadeg* a'i *Eiriadur* ef, ac felly wedi ffugio awdurdodau dros yr hyn a wnai. Am ei ysgrifeniadau Cymraeg, gellir dweud mai Saesonaeg ydynt wedi ei ysgrifenu mewn geiriau Cymraeg, neu eiriau Cymraeg wedi eu cystrawenu ar egwyddorion ac yn ol rheolau grammadeg Saesonaeg. Pwy ysgrifenai mewn cysylltiad a dyn o'r fath!" Gwel y llythyr Saesonaeg gwreiddiol yn llyfr Mr. Waring, t. d. 169.

Yn awr y mae yn amlwg fod y dôn wedi cyfnewid yn hollol; ac y mae yn ofynol inni gredu, fod Iolo wedi bod yn ddall iawn ar un amser, ac yn graff iawn bryd arall; neu ei fod wedi defnyddio gormodiaith yn ei gyhuddiadau. Nid oes gennyf amheuaeth mai'r olaf yw y syniad cywir; ac am hynny yr ydym yn barod i ofyn, beth oedd yn peri i'r bardd ymddwyn yn y ffordd yma tuag at ei hen gyfaill. Nid oedd yn hawdd atteb y gofyniad cyn i lyfr Mr. Waring ddyfod o'r wasg, a'r hyn oll a wybyddid oedd fod ffynon o wenwyn yn ffrydio ym mynwes yr hen fardd, a bod anghydfod rhwng y ddau ddysgawdwr. O'r diwedd daeth goleuni. Dywed Mr. Waring fod o'i flaen lythyr yn llaw-ysgrifen Iolo yn ei ddyddiau diweddaf, yn yr hwn y traetha hanes ei gyssylltiad ag Owain Myfyr a Gwilym Owain Pughe:—

"Yn y flwyddyn 1801, || argraffwyd tair cyfrol fawr o'r ysgrifau hyn (h. y. y rhai oedd Iolo wedi casglu), yn Llundain, ac yr oeddent ar werth gan Longman, Rees, a'u Cyfeillion, Paternoster Row. Y mae cynnwysiad y cyfrolau hyn, yn taflu goleuni mawr, nid yn unig ar hanes Cymru, ond ar hanes Prydain hefyd. Ond yn fy nghasgliadau i, yr oeddwn wedi gwrthwynebu yn wrol hen chwedlenau afresymol yr oesoedd tywyll, pa rai ynt yn gelwyddau amlwg o'r lliw tywyllaf. Parodd hyn dramgwydd i'm cydlafurwyr, pa rai a'm cyhuddasant o wrthod ysgrifau dychymygol, y rhai na fu erioed mewn hanfodiad, y rhai ni welais erioed er ymchwil diwyd, y rhai na chlywais pa le yr oeddent i'w cael, a'r rhai nad allent hwy fod heb wybod nad oeddent mewn un man. Pethau felly ynt ffugiadau Gaffre o Fynwy, chwedlenau am y brenin Arthur a'r ford gron, a llawer o bethau cyffelyb ereill. Er hynny y mae'r cyfrolau hyn yn cynnwys gwybodaeth hanesyddol, amrywiol, a gwerthfawr; ond ar un esgus a'r llall, ni dderbyniais fyth yr at-daliad dyledus ac addawedig am fy amser a'm llafur."—(Waring, 112). Ar yr adroddiad hyn, y mae Mr. Waring yn gwneud y sylwadau canlynol, a pha rai yr wyf yn cydsynio:—"Y cyfrolau crybwylledig oedd y *Myfyrian*

* Anhawdd deall beth a feddyliai'r bardd wrth orllewin a dwyrain. Arferir yn awr i gyfrif Abertawe yn y rhan orllewinol o Forganwg, a Chaerdydd yn y dwyrain; ond os deallaf Iolo yn iawn, mae yn cyfeirio at yr hyn a elwir yn *North and South* yn awr; ai'r camsyniad yw fod Uch Cayach ac Is Cayach, rhwng Caerphilly a Gellygaer, yn cael eu gosod ar lan y môr rhwng afonydd Dawon ac Ely.

† Cwmmwd Hirfryn.

‡ Anghywir i ryw raddau; ni wnawd un cyfnewidiad ond yn y drydedd gyfrol.

|| Anghywir: Dwy gyfrol yn unig ddaeth allan yn 1801, sef y cyntaf a'r ail. Ni ddaeth y drydedd allan am chwech mlynedd wedi hynny, sef yn 1807.

Archaiology, ac ysgrifenwyd y llythyr uchod pan oedd y bardd mewn tlodi, ac yn teimlo pa faint o fendith y buasai hyd yn nod rhan o'i ennilloedd llenyddol mewn clefyd a hen oed. Efe a ysgrifennodd y rhagymadrodd llafurfawr, a'r adolygiad ar gyflwr yr hen ysgrifau Cymreig, yn y cyhoeddiad hwnnw. Ond etto y mae yn anhawdd credu, y buasai dau o'r fath hen gyfeillion haelionus ac y bu Owain Myfyr a Gwilym Owain iddo ef gynt (gwel y rhagymadrodd i'r *Lyric Poems*), yn cyduno i wneud anghyfiawnder ag ef yn y matter hwn. Dichon fod rhyw gamgymeriad o bob ochr; ond modd bynag, ni symudwyd yr argraff dolurus oddiar feddwl yr hen wr, tra bu yn un o drigolion daear." Gofynais i'w wyr, mab hynaf Ab Iolo, am ychwaneg o oleuni ar pen yma, ond methais; a'r casgliad a wnaf ar y cwbl yw, fod Iolo wedi gosod mwy o werth ar ei lafur, nac yr oedd yn ei deilyngu yn ol barn Mr. Owen. Y mae Iolo yn addef iddo dderbyn haelioni yn 1793, oddiwrth ei "gyfeillion rhagorol, Mr. Owen Jones a Mr. William Owen; a pha fodd y gallwn gredu fod haelion 1793, wedi troi yn anonest yn 1801? Y mae Mr. Waring yn cymmeryd yn ganniattaol na dderbyniodd Iolo un rhan o'r hyn oedd ddyledus iddo; ond nid yw geiriau yr hen fardd yn cyfiawnhau y casgliad hynny; nid yw dweud na dderbyniodd unrhyw gymmaint, ond yn hytrach na chafodd "yr at-daliad addawedig *(the stipulated price)*. Gan hynny, barnaf fod y syniad uchod yn agos i'w le. Y mae digofaint yn debyg i

Wenhwyvar merch Ogyrwen gawr,
Drwg yn fychan, gwaeth yn fawr;

meithrinodd y bardd ei wg i'w gadw yn gynnes; ac o anghydfod bychan tyfodd gelyniaeth barhaus.

(*Pw barhau*).

RHESYMAU YN ERBYN ANGENRHEIDRWYDD PHILOSOPHYDDAIDD YN CAEL EU GOSOD ALLAN A'U HATTEB. —Dosbarth VI.—*(Parhad o tudal* 190.

Y PUMMED GWRTHWYNEBIAD.

Mae yr athrawiaeth o angenrheidrwydd yn cymmysgcu cynneddfau naturiol a moesol y naill a'r llall, ar y sail hon mae pob un o'r ddau yn y cyfansoddiad ac yn anocheladwy. Mae bod yn hardd yn gymmaint o rinwedd a bod yn haelionus, a byddai mor ddoeth a chyfiawn i gospi dyn am fod yn anafus, ac am ladratta.

Atteb. Mae y gwrthwynebiad hwn yn agos yr un peth a'r trydydd, ac un geiriol hollol ydyw. Mae cynneddfau naturiol a moesol yn wir mor angenrheidiol y naill a'r llall, ond gan fod yr olaf yn ewyllysiol a'r llall yn anewyllysiol, maent yn gofyn moddion yn gyfattebol wahanol naill ai i'w dwyn ymlaen, neu eu gwella. Mae annogaethau yn gweithredu mewn un câs ac achosion anianol yn y llall. Pe gwellai poeniad y corph anaf yr hyn yn wir sydd yn cymeryd lle weithiau, byddai yn beth rhesymol i weinyddu poen, yn feddyginiaeth i ffaeleddau naturiol, a phe byddai i arferiad o hardd wisgoedd i wneuthur dyn yn haelionus a doeth, darfyddai astydrwydd mawr am wisgoedd i fod yn nod coegddyn.

Y CHWECHED GWRTHWYNEBIAD.

Mae yr athrawiaeth o angenrheidrwydd yn annogaeth i ddrygioni. Mae yn tawelu meddwl euogrwydd, ac yn taflu heibio bob annogaeth i edifeirwch. Paham yr edifarhâ dyn am yr hyn ni allai ei ochelyd? Paham na orfoledda mewn ymddygiad pa mor ddrwg bynnag mewn egwyddor, neu niweidiol yn ei ganlyniadau uniongyrchol; yr hwn yn y diwedd a weinydda tuag at y daioni pennaf possibl, a'r hwn yn wir yn ol yr athrawiaeth hon sydd yn rhan hanfodol o'r system oreu bossibl.

Atteb. Y cwestiwn mewn byr eiriau ydyw hyn:—Pa un a ydyw yr athrawiaeth o angenrheidrwydd yn gosod seilfaen briodol i edifeirwch ac yn gweinyddu annogaethau i hynny? Edifeirwch ydyw newidiad barn o ddrygioni i rinwedd, a'r meddyliau sydd yn gyffredinol yn cydweithredu i'w ddwyn ydynt Atgno, Tristwch, Cywilydd, ac Ofn.

Y teimlad poenus dirfawr, yr hwn sydd yn cyfodi oddiar y grêd, y gallasem mewn amgylchiadau yn gymmwys yr un, ddewis a gweithredu yn wahanol ydyw Atgno. Mae y teimlad twyllodrus hwn wrth gwrs yn cael ei ollwng heibio gan yr athrawiaeth o Angenrheidrwydd. Nid ydyw y meddwl hwn pa fodd bynnag ond o chydig werth gweithredol. Nid ydyw claf mewn twymyn yn cael ei dueddu i ymofyn meddyginiaeth oherwydd ei fod yn credu y gallasai ochelyd rhag cael yr anwyd a ddygodd arno y clefyd, ond am ei fod yn dymuno cael ei waredu o'r poen presennol, a'i fod yn ofni os na symydir y clefyd y bydd angeu i ganlyn. Ar yr un rheswm y mae dyn yn ceisio meddyginiaeth rhag arferion drwg, clefyd y meddwl, nid am y gallasai yn yr un amgylchiadau ochelyd eu ffurfio, ond am ei fod yn dymuno cael ei waredu o'r poen presenol, ac yn ofni os na cha y drwg ei ddadwreiddio y tuedda etto i galedi mwy annoddefol. Y teimlad poenus sydd yn cyfodi o sefyllfa annhrefnus y meddwl o dan lywodraeth pechod ydyw Tristwch: y mae yn naturiol yn annog i edifeirwch, ac y mae yn hollol gyson a'r athrawiaeth o angenrheidrwydd.

Teimlad anesmwyth yn cael ei gyffroi gan ddaliad, *(apprehension)* atgofiad, neu gyfrifiad o un peth a ystyrir megis yn annheilwng o'r person, yr hwn sydd dano, neu yr hyn sydd yn tueddu i'w osod allan mewn gwradwydd ac anghlod ydyw Cywilydd. Nid oes a fynno y gred yn y bossiblrwydd i ochelyd achosion y cywilydd, a dygiad y teimlad poenus hwn arno. Mae cywilydd yn fynych ar ddynion fod arnynt glefydau ffiaidd a sarhaus, er yn gyfansoddiadol neu ddamweiniol. Ac y mae cywilydd ar ddynion o deimladau puredig, am ymddygiad gwarthus un a fyddo yn perthyn iddynt, neu mewn un modd yn gyssylltedig a hwynt, er eu bod wedi gwneuthur pob peth o fewn eu gallu i'w attal. Ar yr un egwyddor gall dyn gywilyddio am weithred bechadurus, megis peth gwael ac isel, a'r hyn pei gwyddid a'i darostyngai ef i wradwydd a gogan-air, er na allai ddewis yn wahanol, dan yr un amgylchiadau a chyda yr un arferion meddwl.

Mae Ofn yn cael ei gyffroi gan y dyb fod rhyw ddrwg yn beth tebyg o ddyfod. Cymmysgedd o fraw a chasäd yw Ffieiddiad. Teimladau ydyw y rhai hyn i'r rhai y mae yr athrawiaeth o angenrheidrwydd yn gosod sail briodol, a'u heffeithiau naturiol ydyw dwyn dynion yn ol o arferion drwg, a lleihau dylanwad arferion drwg, hynny ydyw dwyn edifeirwch.

Mae yr athrawiaeth o angenrheidrwydd yn dysgu fod dynion yn yr un amgylchiadau yn gweithredu yn wastadol yn yr un modd, oddiwrth hyn canfyddant yr angenrheidrwydd i ochel temptasiynau, os ydynt yn ddirag-

rith yn dymuno edifarhau, a newid arferion eu meddyliau. Mae yr athrawiaeth hon etto yn sefydlu rhinwedd personol mewn egwyddor, arferiad, a character, yr hyn sydd yn ang'hyson a throedigaethau disymwth; ac fel y sylwyd o'r blaen, trwy gadarnhau credadwyaeth, y mae yu cryfhau effeithioldeb moesol yr athrawiaeth o gospedigaeth dyfodol.

Mae'r monteision hyn yn briodol i angenrheidrwydd philosophyddaidd; mae yr athrawiaeth o Ewyllys rydd, os y dilynir hi i'w chanlyniadau naturiol, yn arwain i ryfyg, i ddisgwyliadau twyllodrus, ac i amheuaeth grefyddol.

Cyn belled ag y mae y gwrthwynebiad yn perthyn i ddrwg moesol, fel appwyntiad Duw ac yn ffurfio rhan hanfodol o'r system oreu ar y cyfan, nid ydyw y gwrthwynebiad yn perthyn mewn modd neillduol i angenrheidrwydd, ond y mae yn dal yr un mor nerthol yn erbyn Ewyllys-rydd, a Rhagwybodaeth fel y profir yn ol llaw.* Yn y cyfamser digon ydyw sylwi, gan fod drwg moesol yn hollol anghyson a dedwyddwch y gweithredydd, rhaid iddo wybod, pa ddefnydd bynnag a wnelo doethineb rhagluniaeth yn y diwedd o'i bechodau ef, hwy dront allan iddo ef yn ffynnon trueni angerddol.

Y SEITHFED GWRTHWYNEBIAD.

Mae yr athrawiaeth o angenrheidrwydd philosophyddaidd yn gwangalonni pob cynnig i ddiwygio ereill, "Os ydyw pob bwriad a gweithred fy mywyd wedi cael eu sefydlu trwy gyfreithau tragywyddol yr rhai nis gallaf na'u gochelyd na'u newid, mae mor chwithig i ddywedyd wrthyf fi—'Dylech fod yn onest y foru, a dywedyd, Dylech attal symmydiad y planedau y foru.'"

Atteb. Addefir gan bawb ag ydynt yn cydnabod rhagwybodaeth Duw, nad ydyw sicrwydd y digwyddiad ddim yn cau allan ddefnyddiad moddion. Os ydyw digwyddiadau wedi eu rhagarfaethu, mae y moddion angenrheidiol at gyflawniad y dybenion hynny mor gwbl wedi eu rhagarfaethu. Hyd yma y mae y gwrthwynebiad yn dal yr un mor gryf yn erbyn Ewyllys-rydd, a Rhagwybodaeth, ag ydyw yn erbyn Angenrheidrwydd; neu yn hytrach, nid oes iddo nerth yn erbyn un o'r ddwy. Ond chwithigrwydd palfaladwy ydyw mantiwmio, nad ydyw bod, ar yr hwn y mae annogaethau pendant bob amser yn cael yr un effaith bendant, o herwydd hynny yn wrthrych addas cyngor, hynny ydyw i arferiad annogaethau, tra y gall annogaethau gyda phriodoldeb gael eu rhoddi i fod hollol ddifatar (indifferent), neu uwchlaw iddynt. Yr un peth ydyw a mantiwmio nad ydyw yn iawn i geryddu y plentyn (A) am ddywedyd anwiredd, oblegid ettyl y fath disgyblaeth ef mewn modd anffaeledig rhag adgyflawni y bai, ond ei bod yn beth hollol addas i geryddu y plentyn (B) oblegid, ac efe yn anymddibynnol ar annogaeth, y mae yn dra ansicr pa un a ddwg cerydd un effeith dda: neu, yn hytrach, os ydyw ef, a llefaru yn y modd cywiraf yn weithredydd rhydd, mae yn sicr na all ddwyn un effeith yn y byd.—*(Pw barhau).*

Mr. Golygydd,—Yn fy llythyr Gorphenaf, dygwyddodd gwall mawr ar y tudal. 160, llinell 19, &c.—Yn lle "A pha uchaf y byddo dyrchafiad y tuedd atgas hyn lleiaf i gyd ydyw atgasrwydd y character," &c., darllener, "A pha uchaf y byddo dyrchafiad y tueddiad atgas hyn, lleiaf i gyd fydd y tueddiad neu y chwant i'w gwrthod, a mwyaf i gyd ydyw atgasrwydd character y gweithredydd," &c. Ar ddiwedd y llythyr darllener *pwysig* yn lle *pwysedig*. Rhif. Awst, tudal. 189, llinell 4 o'r gwaelod, yn lle *rhyddid philosophyddaidd*, dylasai fod *angenrheidrwydd*.

* Gwel yr atteb i'r wythfed wrthwynebiad. † Dawson's Necessitarian, passim. Palmer against Priestley, sec. 6; Priestley's reply, sec. 6. Beattie on Truth, p. 353.

A. B. Beattie on Truth, page 353.

CYFIAWNDER Y GWYNFYDIGION.

Syr,—Yr oeddwn yn ddiweddar yn ymddiddan â chyfaill ynghylch y gwynfydigrwyd sydd yn gysylltedig â chyfiawnder. Teimlem ill dau fod y pwngc yn un o ddiddordeb neillduol, ac o'r pwys mwyaf—fod tystiolaeth yr efengyl ynghylch y peth yn haeddu pob derbyniad, ac y dylai gael penderfynu pob dadl. Ymhellach na hyny, nid oeddem yn gallu cyd-weled nemawr. Er hyny, feallai fod ein golygiadau yn nes at eu gilydd nag y tybiem ni eu bod. Cymaint o rwystr y sydd o arferyd enwau ac ymadroddion mewn gwahanol ystyr neu mewn ystyr dwyll, yn ein hymddiddanion a'n traethodau crefyddol. Braint fawr fyddai i gael ymddiosg oddiwrth ragfarnau dygiad i fynu a phleidgarwch; ond pa fodd mae dwyn hyny o gyfnewidiad dedwydd oddiamgylch? Y mae gan Dduw, yn ei air ac yn ei ragluniaeth, fodd i wneuthur hyny. Efe a all ac efe a drefña foddion ac offerynau cymmwys a digonol i ddihuno y rhai sydd yn eu trwm gwsg, ac i ryddhau y caethion ysbrydol. Nid wyf fi yn gwybod am ddim sydd fwy offerynol i'r perwyl happus hyny, na'r egwyddor Brotestanaidd, *o hawl a dyledswydd pob dyn i chwilio a barnu drosto ei hun.* Ond weithiau y mae dynion yn cael eu dihuno o'u trwm gwsg trwy ffeindio bod eu tŷ ar dân.

I ddychwelyd at destun yr ymddiddan. Yn nghwrs y siarad, adroddwyd y geiriau hyny o eiddo ein Harglwydd, sydd yn cynnwys yr addewid y bydd i'r "cyfiawn lewyrchu fel yr haul, yn nheyrnas eu Tad." Cytunid fod y cyfryw wynfydigrwydd addawedig yn un sylweddol ac annhraethol. Ond *pwy*, a pha fath ddynion fydd y cyfiawnion hyny, yr oeddem yn methu â chytuno. Aethpwyd dros yr amrywiol gyfiawnderau a sonir am danynt gan Grist a'i Apostolion; megis, cyfiawnder *ymddangosiadol* yn unig, neu ragrith, am ba un yr oedd Crist yn condemnio yr Ysgrifenyddion a'r Phariseaid. Y cyfiawnder *seremoniol* yr hwn yr oedd y Phariseaid cydwybodol yn gosod gormod o bwys arno. Hwn oedd y cyfiawnder oedd "o'r ddeddf," yr hwn yr oedd Paul, wedi iddo ddyfod yn Gristion yn ymwadu ag ef, gan "ei gyfrif yn dom ac yn golled" (Phil. iii.), er mwyn y cyfiawnder oedd lawer amgenach, sef, "y cyfiawnder sydd o Dduw, trwy ffydd." Am yr olaf yn unig y mae dadl yn bod. Nid oes neb, gobeithio, yn y dyddiau hyn, a saif yn gyhoeddus dros ragrith a chyfiawnder seremoniol, fel eiddo'r Phariseaid gynt. Er fod, fel y mae gwaetha'r modd, y rhan fwyaf o grefydd yr oes yn cael ei wneuthur i fynu o ffurfioldeb neu bethau allanol cyffelyb. Ac o'm rhan fy hun, nid wyf yn gweled fod cyfiawnder cyfrifol neu ddirprwyol, fel ei gelwir, yn ddim amgenach na rhyw beth allanol arall. Ac yr wyf wedi rhyfeddu lawer gwaith fod Protestaniaid yn ymfoddloni ar y fath beth. Y maent yn cydnabod mai peth personol yw crefydd a iechydwriaeth —fod pob dyn i roddi cyfrif drosto ei hun. Onid chwith ynte, eu bod, fel y gwna'r Pabyddion, yn gosod iechydwriaeth i ymddibynu ar gyfrifiad neu ddirprwyaeth? Oherwydd, pa beth arall ydyw? Sicr mai nid enw neu gyfrifiad o beth oedd y cyfiawnder ag oedd Paul yn foddlon i ymadael â phob peth er ei fwyn. Ond barna fy mrodyr Calfinaidd fel arall, mae'n debyg. Y cwestiwn yw, pa un yw *y cyfiawnder* a gymeradwyir yn y farn.

Fel yma yr arweinai testun yr ymddiddan yn naturiol at dystiolaeth Crist ar y pwngc, yn y geiriau a lefarodd ef ar ddechreu ei Bregeth ar y Mynydd (Matt. v. 6), "Gwyn eu byd y rhai sydd arnynt newyn a syched am gyfiawnder, canys hwy a ddiwellir." Os gellir ond dangos yn foddhaol, pa fath ddynion yw "y rhai sydd a newyn a syched arnynt am gyfiawnder," bydd

yn hawdd canfod pa un yw y cyfiawnder hwnw ag y mae gwynfydigrwydd yn gysylltedig ag ef. Ar ol talm o amser, ynghyd ag ychwaneg o brofiad a myfyrio ar y pwngc, y mae fy argyhoeddiad yn fwy cadarn fyth, mai cyfiawnder personol neu weithredol oedd yn ngolwg yr Iesu; ac nad oedd dim yn mhellach o'i feddwl na chyhoeddi gwynfydigrwydd mewn cysylltiad a'r fath beth â chyfiawnder cyfrifedig neu ddirprwyol. Ymdrechaf osod i lawr yn fyr rai o'r rhesymau sydd yn ymddangos i mi yn argyhoeddiadol; a chrefaf hynawsedd y darllenydd.

Frawd neu chwaer, ag ydwyt yn darllen y llinellau hyn, mi wn dy fod yn dymuno bod yn ddedwydd. Nid oes neb nad yw yn dymuno bod yn ddedwydd, pe y gwyddent pa fodd. Gobeithiaf hefyd dy fod yn dymuno uwchlaw pob peth, i fod o nifer y cyfryw ag y mae Iesu Grist yn cyhoeddi "gwyn eu byd" uwch eu pennau. Rhown glust ynte ac ystyriaeth i'w eiriau a'i addysg ef ar y pen.

Yn ol y dyb gyffredin, y sawl sy'n ceisio rhan yn rhinweddau aberth y groes, ac i gael eu cyfiawnhau trwy haeddiant un arall, yw y rhai sydd a newyn a syched arnynt am wir gyfiawnder; ac mai y cyfryw yn unig fyddant yn gadwedig ac yn happus am byth. Yr wyf fi yn gydwybodol o'r farn, fod y dyb hon, er maint ei phoblogrwydd, yn dyb gyfeiliornus a niweidiol, ac eithaf anghristnogol. Ac yr wyf yn barnu felly oherwydd y rhesymau canlynol.

1. Pe hyny fuasai meddwl ein Harglwydd buasai efe wedi dywedyd hyny mewn geiriau eglur a phendant—yr hyn nis gwnaeth. Diau y gallai Crist a'r Efangylwyr draethu'r gwirionedd mor eglur a dealladwy a duwinyddion yr oes hon. Ac mor ddiau a hyny, pe buasai meddwl Crist yn unol a'r dyb gyfeiriedig, buasai wedi dywedyd, "Gwyn eu byd y rhai sydd arnynt newyn a syched am iechydwriaeth trwy haeddiant y Cyfryngwr;" neu ryw eiriau cyffelyb, o'r fath a ddefnyddir gan amddiffynwyr y dyb boblogaidd.

2. Y mae hefyd yn ddigon amlwg nad ydyw ein Harglwydd, nac yn y bregeth hon nac oll, yn defnyddio y gair cyfiawnder, i arwyddo haeddiant neu gyfiawnder un arall. Yr "erlid o achos cyfiawnder" a sonir am dano —Matt. v. 10, &c.—nid o achos cyfrifiad o haeddiant un arall ydoedd; eithr yn amlwg o achos eu bod yn gwneuthur ac yn dysgu cyfiawnder, fel "goleuni y byd, a halen y ddaear." A'r cyfiawnder hwnw oedd y Phariseaid yn ddiffygiol o hono (adn. 19, 20), pa beth ydoedd ond anian ac ymddygiad cyfiawn? Buasai Paul, pan yn Pharisead, yn gosod pwys ar "ei gyfiawnder ei hun, yr hwn oedd o gyfraith y Seremoniau" (Phil. iii. 6—8); ond wedi ei ddwyn i adnabod "ardderchawgrwydd gwybodaeth Crist Iesu," dywed ei fod yn ymwrthod a'r cyfryw gyfiawnder fel peth diwerth, ac nad oedd yn dymuno rhagor na "ei gael ef yn Nghrist," neu i fod yn Gristion gwirioneddol; ac fel y cyfryw i feddiannu a mwynhau "y cyfiawnder sydd o Dduw a thrwy ffydd Crist." Nid ydyw yn dywedyd gair am ei fod yn ymddibynu am gadwedigaeth ar gyfiawnder a haeddiant Crist. Na, dim o'r fath beth

Ond nyni a wyddom pa gyfiawnder oedd yn amcan a dymuniad yr Apostol, oddiwrth y prawf a'r siampl a roddodd o hono yn ei garacter a'i weithredoedd, ac yn ei addysg i eraill. Ac ar ddiwedd ei daith ddaiarol, ni a'i gawn ef (2 Tim. iv. 7, 8) yn appelio at ei lafur a'i ffyddlondeb, gan ychwanegu, "O hyn allan rhoddwyd *coron cyfiawnder* i'w chadw i mi, yr hon a rydd yr Arglwydd, y Barnwr cyfiawn, i mi, yn y dydd hwnnw." Pwy na

wel mai cyfiawnder mewn meddwl, anian, a gweithred, oedd yr un y llefarai Paul am dano, fel gwrthrych ei holl ddymuniad; sef, "y cyfiawnder sydd o Dduw a thrwy ffydd Crist?" Ymddengys yn amlwg i mi, mai yr un cyfiawnder a orchymynir (Matt. vi. 33) lle y dywed yr Iesu wrth ei ddisgyblion, "Ceisiwch deyrnas Dduw a'i gyfiawnder ef."

Y mae un man arall, a hwnw yn fan pwysig dros ben, lle y mae Crist yn defnyddio y gair yn y fath fodd ag i ddangos yn eglur ac yn bendant mai cyfiawnder personol neu weithredol a feddylir. Cyfeirio yr wyf at y disgrifiad profiwydoliaethol a roddir o ddydd y farn yn y xxv. o Fatthew. Pwy yw "y rhai *cyfiawn*" wrth ba rai y dywed y Brenin, "Deuwch chwi, fendigedig blant fy Nhad?" A phaham y gelwir hwy yn *gyfiawn?* Ai am fod cyfiawnder neu haeddiant un arall yn gyfrifedig iddynt? O na, dim sôn am y fath beth? Ond i'r gwrthwyneb fe gollair eu gweithredoedd cyfiawn a charedig. "Yna yr ettyb y brenin iddynt, yn gymaint a'i wneuthur o honoch i'r rhai hyn, fy mrodyr lleiaf, i mi y gwnaethoch."

3. Rheswm arall yn erbyn yr athrawiaeth o gyfrifiad cyfiawnder, ydyw, fod y fath beth ynddo ei hun yn wrthuni ac yn anmhosiblrwydd. Y *mae ffordd* ac nid oes ond un ffordd i wneuthur dynion yn gyfranogion o gyfiawnder Crist, a honno yw, trwy eu dwyn i garu a gweithredu cyfiawnder fel yntau. Trosglwyddo ymddygiad a gweithredoedd Crist i ni, trwy gyfrifiad, sydd yn beth gwrthun ac anmhosibl. Cadarnheir hyn mewn modd pendant ddigon gan yr Apostol Ioan. 1 Ioan iii. 7—"Yr hwn sy'n gweithredu cyfiawnder sydd gyfiawn, megis y mae yntau yn gyfiawn." Nis gellir twyllo "y Barnwr cyfiawn," ac nis gall ef dwyllo ei hun nac eraill; ac o ganlyniad nis gall gyfrif cyfiawnder i'r euog nac euogrwydd i'r cyfiawn. Yr un peth tuasai hyny a phriodoli i ddyn garacter ac ymddygiad nad ydynt mewn gwirionedd yn perthyn iddo; neu gyhoeddi mai nid efe yw ei hunan, eithr mai ryw un arall ydyw. Y mae yn boenus gorfod dynoethi y fath wrthuni. Y mae yn ddigon i gadarnhâu anffyddwyr yn eu tyb, nad yw crefydd i gyd ddim ond *sham*. Pa beth arall allesid ei chyfrif, pe buasai, yn ôl yr athrawiaeth gyfeiriedig, yn cyhoeddi, "Gwyn eu byd y rhai newynog a sychedig hyny ag y mae un arall yn ymborthi ac yn drachtio yn eu lle!" Och! pa bryd y symudir hyn o warth a diystyrwch oddiar y broffes o grefydd Crist! Mewn gwirionedd, nid i grefydd yr Iesu y mae yn perthyn, eithr i draddodiadau dynol.

4. Y mae rheswm arall etto yn erbyn yr athrawiaeth o gyfrifiad cyfiawnder; a hwnw ydyw, fod dymuniad am y fath beth yn groes i'r anian a feithrinir yn mynwes pob gwir Gristion, a gwaeth na hyny, y mae dymuno cael meddu ar gyfiawnder a haeddiant un arall trwy gyfrifiad, yn ddymuniad anfoesol a drwg. Cyffelyb iddo ydyw y dymuniad sy'n llywodraethu'r *Gambler*, yr hwn sydd yn ceisio ei elw a'i ennill ei hun trwy golled un arall, a phell iawn oddiwrth yr anian oedd yn llywodraethu yr Iesu bendigedig, ac sydd hefyd yn llywodraethu pawb o'i ganlynwyr ag ydynt yn ymdebygoli iddo. Iaith yr anian honno ydyw, "mai dedwydd yw rhoddi yn hytrach na derbyn." O barch i'r anian honno yr wyf yn rhwym o ddywedyd fy meddwl; er y gwn yr ymswynir wrthyf pan y dywedwyf, fod y fath newyn a syched am ddedwyddweh trwy boenau a cholled un arall, a hwnw hefyd y gorau a rodiodd dacar, yn ddymuniad anfoesol ac anghristnogol; ac nas gallaf am fynud lettya'r dyb fod Crist wedi cyhoeddi fod y cyfryw yn ddymuniad gwynfydig.

Wrth edrych ar garacter yr Iesu a'r modd y cyflawnai ei swydd a'i weinidogaeth ddaionus, ei lafur a'i ddioddefiadau a'i ffyddlondeb hyd at angau'r groes, fe'n rhwymir ni i barch a chariad a diolchgarwch iddo. Ond i ddymuno cael ei gyfiawnder ef yn eiddo i ni trwy ryw ffordd arall heb law trwy geisio ymdebygoli iddo, sydd ddymuniad cwbl groes i'w anian ac i'w ddysgeidiaeth ef. Ac heblaw, y mae y fath ddymuniad yn groes i gyfraith Duw, yr hon sydd yn benderfynol i'r eithaf, mai ffordd ei orchymynion ef, ac mai honno yn unig, yw y ffordd i'r gwynfyd, Micah vi. 8. Ac y mae Crist ei hun yn dywedyd yn bendant, nas daeth ef i ddileu y gyfraith hon; ond i'w chadarnhau.

Heb ychwanegu rhesymau, yr wyf yn meddwl fy mod wedi dangos yn barod, mai nid cyfrifiad o gyfiawnder: ond cyfiawnder personol neu weithredol, oedd yn ngholwg Crist, pan y dywedodd "Gwyn eu byd y rhai sydd a newyn a syched arnynt am gyfiawnder, canys hwy a ddiwellir."

EUELPIS.

TRAETHAWD AR YMFFROST, NEU Y "FI FAWR."

Dyfarnwyd y Wobr am hwn, yn Eisteddfod Carw Coch, Aberdâr, yn 1846, *i J. Rhys Penydaren, Merthyr Tudful.*

"Hyspys y dengys y dyn,
O ba radd y bo'i wreiddyn,"

"Pa vi, ond vy vi, sydd vi fawr, a'r vi
Oreu wyv vi orvawr,
Y vi a geir yn vi gawr;
Gwnewch alw vi i'r uchel-vawr."—HUGH OWEN.

YMHLITH aelodau y Gymdeithas fawr ddynol, nid oes greadur adgasach na'r Gwag-ymffrostgar; ac ysywaeth mae y surdoes marwol hwn, wedi treiddio trwy holl does dynoliaeth, fel mae yn amhossibl cael cymaint ag un yn gwbl rydd oddiwrtho; ond trwy yr iawn ddefnydd o reswm, mae rhai yn ei wanhau, a'i fogi, fel nad ydyw yn torri allan yn fflamiau cynddeiriog fel mewn eraill; a lle byddo y duedd felldigawl hon heb ei ffrwyno, amhossibl ydyw i'w meddianydd wadu ei hun, ac fel y dwedai yr enwog Rowland Hill, "Fod yn rhaid fod y diafol yn ddall, os metha saethu dyn ymffrostgar, oherwydd ei fod cyn ledaned y phlwyf helaeth ei hun.

Mae yr ymffrostgar, neu dylwyth y *Fi Fawr*, yn edrych arnynt eu hunain fel pe byddai holl ddynion, a phethau y byd, ynddynt hwy, ag nad oes a fynno eraill ag ef, ac fod sefyllfa dda pob peth, i gael ei chyfrif wrth eu mesur hwy. Os llwyddianus fyddant, bydd yr oll yn dda, ac wedi tarddu o'u hymdrechion a'u synwyr da hwy; ond os eu siomi gant yn eu bwriadau, ymgynddeiriogant yn erbyn Rhagluniaeth, a thaflant y bai oll oddiwrth eu drysau eu hunain; mewn gair, nid ydyw brodyr na chyfeillion, yn werth dim ganddynt, oni allant wneud grisiau ohonynt, er dringo i binacl lle y gallant ddangos eu hunain!

Y duedd adgas hon, ydyw ffynhonell anghyfiawnder, ac oblegid hon, nid gwaeth gan laweroedd, pa lwybr a ddefnyddiant er dwyn eu hamcanion i ben; a than lywodraeth y *fi fawr*, y sangant ar freiniau dyn, y mathrant bob cyfreithiau, y diystyrant gnoadau cydwybod, yr ymddygant yn dwyllodrus

yn mhob ymddiried, y bradychant y cyfeillion goreu, y cilgwthiant drugaredd, y troant gyda phob awel, y gwyrant oddiwrth rinwedd, y drwgliwiant y rhinweddol, y lluniant gelwyddau, ac y gweithredant bob camwedd ac ysgelerder. Y *fi fawr*, ydyw gelyn penaf y lles cyffredin, cynygydd pob trefn, distrywydd pob cysur, a chwbl-ddifethydd pob cymdeithas.

Dywed ein cyfansoddiad yn amlwg, nad ydym wedi ein hamcanu i ymddibynu arnom ein hunain yn unig; a chan mai creaduriaid ymddibynol ydym, yn enw pob synwyr—pa *fi* sydd genym i fostio arni? Hon, meddir, ydoedd achos dymchweliad angylion gwawl yn gythreuliaid annwn; ac yr un awel wenwynig a chwythodd i'r Baradwysaidd Ardd, gan chwyddo y creadur *dyn*, i godi gwrthryfel yn erbyn ei Grewr, ac i wisgo ar ei luman, fel yn her i Hollalluogrwydd, y llythrenau ymchwydd-fawr, *fi!* Pa fodd? ac o ba le? y daeth yr ufel ofnadwy hwn, i lestr mor lan, mewn lle mor bur, sydd bwnge i holl oesau y byd; a gellir dweud gyda bardd Bantycelin,—

"A'r dryswch fyth heb ddattod,
Yn peri syndod sydd!"

Diau y pery y gwenwyn yngwaed dynoliaeth, hyd oni wrth-ddirwynir llinyn anian; ac er na fedrwn gael allan yr *had*, etto gwelwn y pren a'i ganghenau; ac er dangos rhai allan o lawer o honynt, cawn nodi fel dosran gyntaf idd ein sylw presenol.

"FI FAWR" Y MEDDIANAU.

Ymchwydda llawer yn arswydus ar hyn, ac ni fydd dim i'w glywed braidd yn eu cyfeillach ond eu cyfoethogrwydd, a'u hanrhydedd, heb gymmaint a son am Raglunaeth a'i gwenau, cymorth cymmydogion, na dim a fu yn foddion i'w derchafu—ond y *fi* fu'n casglu; y *fi* fu'n chwysu; y *fi* fu'n trefnu—a'r cil o honynt eu hunain tra pery hawddfyd; ond pan ddel adfyd, ni fydd son am y *fi* fu'n gwastraffu, yn esgeuluso, ac yn cysgu, yn y dydd y dylasid gweithio.

YN AIL.—"FI FAWR" YR ACHYDDIAETH.

Nid oes dim a foddha rai dynion, heb gael syfrdanu yn barhaus ain eu hachau, a'u perthynasau, ac yn neillduol gyda'r cwppan. Bydd rhinweddau, cyfoeth, parch, ac enwau, y rhai hynny, yn un twrf parhaus; codir llawer o'u beddau, ac y byddai yn well eu gadael yno, am fod drewdod eu cymeriadau, megis yn ail-daenu drwy yr holl wlad. Bydd rhai yn barod i ollwng gwaed yr ysprydion hyn—pe gwaed mewn yspryd,—er profi eu gwaedoliaeth uchel, a hen, er hwyrach na fyddai yn addasach i lawer o honynt gyduno a Pope—

"My ancient but ignoble blood,
Has crept through scoundrels since the flood!"

Ond mynych y clywir hyn, ysywaeth, hyd nod yn y senedd-dai, lle y dywedir fod y dynion callaf yn cydgyfarfod. Etto, gwyr llawer llwdn asyn, na chawsai bresob yno, ond trwy *waedoliaeth*, a byddai yn lles mawr i filoedd, pe oerai angau ei waed er rhoi lle i'w well; ond rhag myned i ormod meithder, awn etto,

YN DRYDYDD.—AT "FI FAWR" Y GALLU SWYDDAWL.

Mynych ysywaeth y clywir llawer swyddog gwladol, milwraidd, neu lyngesol, a llawer coegyn o oruchwyliwr, yn dweud uwch ei gyd-ddyn, pan mewn

llafur a lludded caled, ac ar ddiferu druan i byrth angau, gan ddirdyniad gormod llafur ar ei gyfansoddiad gwanaidd; etto, y barbariaid hyn, yn gorchymyn mewn llais awdurdodol, gan ddweud, "Fi wna i ti i'w gyflawni!" Oddiar yr Hedd Fainge, ysywaeth hefyd, dihangodd llawer "Fi gofia am hyn etto!" er yn ymddangosiadol, yn dal clorian cyfiawnder, heb lid na malais! Ond pan ail-droer y llyfrau, ger yr Orseddfainge wen fawr, nid yw yn debyg pan ofynir, "Pwy a fu yn euog o hyn?" yr attebir, gyda'r un rhwyddineb a chynt, y gair *fi*.

YN BEDWAREDD.—"FI FAWR" YR HAELIONI.

Braidd nad yw y fintai hon, yn uwch ei thwrf na'r un a nodwyd o'i blaen, am fod pob un am dorri ei enw ar y llinell uchaf, ac yn yr ymdrech bydd rhai o honynt yn sangu ar draed eu gilydd, ac felly yn myned i dymer ddrwg, ac yn dannod dybenion eu gilydd; dywedai rhyw foneddwr, "mai er mwyn yr achos goreu, y rhoddodd efe rodd at adeiladu y Capel," ond attebai rhyw un yn anfoneddigaidd iawn, "mai ei gelwydd yw hynny, mai er mwyn cael pleidlais seneddol yr aelodau ydoedd y dyben!" Bloeddiai llawer am eu haelioni i'r tlodion, er mwyn brawdoliaeth: ond amheuid rhain etto, am eu bod yn disgwyl cymaint o ddiolchgarwch ac udganu eu clod am eu rhoddion; ond eraill dippyn yn ffalstach, a ballent (esgus) gadael y "llaw ddeau wybod am roddion yr aswy;" etto, wrth graffu, gwelwn fod gan y rhai hyn udganwyr, yn gwneuthur y gwaith i bwrpas drostynt, a llawer o'r rheiny yn ymddangos yn gyfrifol iawn, mewn gwisgoedd duon a gwddflenni gwynion, ac yn ei mhedru i'r perwyl; ac yn wir, wrth weled yr holl dwyll, mi giliais, a chyfeiriais fy nghamrau, at

YN BUMED.—Y "FI FAWR" GREFYDDOL.

A dyma fi bellach ar faes, nad oes na phen na threfn i'w gweled o ben bwy gilydd, ond swn y *fi fawr*, yn dyfod gyda'r awel o bob cwr, a'r ymryson braidd hyd at waed, rhwng y pleidiau (ac yn wir at waed hefyd), ac yn eu plith, gwelwn bedwar o fechgyn glewion dros ben, yn gollwng atti yn dacclus, a phob un ac ysnoden am ei het, a "Fi sydd ar yr iawn" arni! ac ar drawiad, dyma ryw gannoedd o lengoedd—o bob lliw, a llun, megis yn codi o'r ddaear, a phawb gyda ei ddyn, yn gwneuthur ymgyrch ffyrnig, ac un dosbarth yn bloeddio, "Atti Confucius anwyl!" "Taro fe lawr Budhu," medd y lleill. "Tydi bia'r flaenoriaeth," "Mahomed am byth," medd eraill. "Di dderbyniaist di dy genadwri yn uniongyrchol o'r Nef!" "Distewch," ebe'r trydydd, "onide mae'r allweddau genyf fi, mi orchymyna dân o'r Nef arnoch!" A thra yr ydoedd hwn yn myned i ddatgloi y dorau trydanawl—dyma y dosparth olaf yn bloeddio yn unfryd, "Atto Luther bach! e' gadwodd, e' werthodd y pardynau oddiwrth dy ddosparth di! tâl iddo, was i! tâl iddo!" Ac fel hyn ynghanol y cythrwfl erchyll, a'r "Fi sydd ben," a'r "Finnau sydd ben," aeth yn fath benbleth, fel mae heb ddadris etto; ond ysywaeth yn myned waeth, waeth; ond mae rhyw *un*, yn estyn ei ben weithiau megis at dwll yn y pared, ac yn dweud, "Addfwyn ydwyf a gostyngedig o galon!" ac mae fel rhyw gywilydd yn eu toi am ychydig, ond atti hyd at waed yw hi drachefn. Troais fy ngolwg oddiwrth y rhai hyn, ac aethum ar fy nghyfer.

YN CHWECHFED—AT DYLWYTH "FI FAWR" Y GWEITHIO.

Erbyn myned i mewn i'r gyfeillach, dyma gynnyg ar gwrw i mi oddiwrth

bump neu chwech o'r yfwyr; ac yn y fan, teimlais nad oeddwn innau yn rhydd o'r *fi fawr*; oblegid clywn ryw beth o'm mewn yn dweud, "Dyna barch sydd gan y rhai'n i *fi!*" Yfais, a gwrandawais ar y gynadledd fawr oedd rhyngddynt; ond buan y deallais mai pob un a'i bwnge oedd yno, a byddai un a'i Allu, y llall a'i Gywreindeb, arall a'i Egni, a'r *fi fawr* fel Isalaw yr holl gerddoriaeth. Ond i orphen y gynadledd, dyma ryw frawd o budler, oedd wedi bod yn cynadleddu a'i hunan dan y bwrdd am beth amser, yn codi fel ellyll o annwn, ac yn tyngu yn ei f—n—d—l, mai efe oedd y "gwr goreu!" a thra roedd arall yn ymddiosg ac yn rhegu, y dangosai efe pwy *fi* oedd orau, ac ell dau megis yn aros am y dalwyr, mi ffoais allan, ac wedi eilio i ddiogelwch, mi synais pa fodd mae neb yn gallu rhoi'r celwydd i hen Esay Brophwyd, am fod ei eiriau yn wirionedd mor amlwg, sef, "Troi o bawb i'w ffordd ei hun!" Ond er y brys oedd arnaf i ffoi, clywais air o cynadledd gwyr y rhedegfeydd, a'r neidio, a'r gorchestu, a'r

"Heddyw yn heinyf ddyn hynod."

A dymunwn gyfleu gair byr iddynt wrth fynd heibio, sef,

"Y fory mewn bedd yn bod!"

Ond nid oedd adeg, rhag myned o'm bywyd yn ysglyfaeth.

YN SAITHFED.—"FI FAWR" YR HARDDWCH A'R GWISGIADAU.

Gwedi craffu ychydig, gwelwn fod y *fi fawr* yma, wedi gwrthio ei hun ymhellach i blith y rhyw fenywaidd; a gwelir llawer un wedi llyngcu y fath dyb fawr am ei glendid, fel braidd na chocliai fod pelydrau goleuni, fel yn cywilyddio wrth ei gwynebpryd; ond er y gred hon, cymmer flodau efelychol, a gesyd hwy o gylch ei gwyneb fel pe rhagorent ar harddwych flodeuyn natur! Yr hagr hithau, a fydd yn *fi fawr* y dillad, gan gredu ei bod wedi ei chreu o newydd; ac yn wir, ysywaeth, mae lle i ofni fod llawer o'r llestri a elwir y cryfaf, ymron hollti gan y *fi* hon! Ond mae rhyw *fi* yn y gwisgiadau, er nad yw yn amlwg iawn, etto mae yn waeth o ran egwyddor na'r lleill. Gwelir llawer a allent wisgo yn brydferth yn ol eu sefyllfaoedd, yn amcanu bod yn wahanol i bawb ereill; ac yn neillduol os bydd y swn eu bod yn berchen ychydig o bunnau, er mwyn cael y gair o fod yn ddifalchder, a thybiant am bob dau fyddo yn siarad a'u gilydd, fel hyn, "Am danaf *fi* maent yn ymddiddan yn awr;" ac fel hyn mae y rhain yn fwy eu rhodres, a gwag ymffrostgar na'r lleill; a chan y dylid eu rheotru ymhlith y dosparth uchaf o'r beilchion; cyfarchaf hwy yngeiriau y bardd:—

"Gwaeth na chledd, yw gwedd y gwalch,—a edrych
Yn hydraws, a chocg-falch;
Trahausfawr ydyw'r traws-falch,
Baich i'n byd, yw Dyn Balch!"

Rhy faith fyddai, yn ol terfynau fy Nhraethawd, sylwi ar ragor nag un dosparth yn ychwaneg, a chan fod a fynno fy ysgrif âg Eisteddfod Gymroaidd, sylwaf air ar y *fi fawr* arswydol, a welir yn aml iawn yn y rhai hyn; heblaw y lluaws o feirdd, traethodwyr, cantorion, &c., a geir yma, a phob un a'i *fi* cyfuwch, fel mae cam a wneir ag ef bob amser, os na fydd yn llwyddianus, pe na feddai fwy o synwyr cyffredin na hwyad. Mae yma hefyd lawer iawn o foneddigion, o deulu Mr. Rhisiart Dafis, neu fel ei gelwir gan y cyffredin, Dic Sion Dafydd, ac maent yn debyg iawn i'r hen foneddig ei hun, croesant

Hafren am ychydig ſisoedd, ac wedi cael hugan ddu, llodrau gwyn, a chadach gwddf o'r un lliw (gwedi eu prynu ar yr ail gan ſeib Abraham cſallai) ; gwadant eu mamiaith, ac os goſynir iddynt ryw oſyniad yn y Gymraeg, dywedant gydag ystum rodresgar iawn, "Fi dim yn *knowing the* Cwmbrag," neu ryw glytiaith gyffelyb i'r modd yr adroddai eu tad Rhisiart, am ryw ddyn dall a welodd yn chwareu y crwth, "*I see a dark man singing the fiddle*," ebe fe; ac ar ryw bryd arall, pan dybiai ei fod yn arogli afalau yn hen goffor ei fam, dwedai gyda gorfoledd, "*O! mother, I did hear the wind of apples.*" Etto, er holl anni-bendod iaith hwn, yr ydoedd ei *ſi fawr* gymaint, fel y didolai ei hun oddiwrth bob cyfeillach, er dangos nad oedd yn deall y Gymraeg. Gallaswn ddilyn y *ſi* yma braidd yn ddiddiwedd, ond rhag sangu dros fy nherfynau diweddgloaf yn bresenol, gyda chyfarchiad caredig i'r beirniad.

Syr,—Gan nad oes amheuaeth ynof nad *ſi* yw y gorau, cfelly pan y gwnewch hynny yn hyspys, galwch arnaf ſi wrth yr enw

V.

BENDITH A GWEDDI ARCHESGOB PARIS.

Mr. YMOFYNYDD.—O bossibl y gallwch gael lle yn y Rhifyn nesaf i'r cyfleithad hwn, o fendith a gweddi Archesgob Paris, a ddywedodd pan yr ydoedd L. Napoleon yn rhoddi llummannau yr cryrod i'w ſyddinoedd, ar y 10fed o Fai diweddaf. Os nad ydyw y fath waith yn wawd a chabledd ar Gristnogrwydd, yr ydwyf yn methu deall beth all fod.

"Er dweud paderau didawl
Ni chair Duw o ochr y diawl."—D. D.

"Derbyniwch y llummannau hyn, a sancteiddiwyd trwy fendith o'r Nef; a byddent yn ddychrynllyd i elynion y bobl Gristnogol; a Duw a roddo ei ras i chwi i nerthol dreiddio a hwynt yn iach ac yn ddiogel, trwy ſyddinoedd y gelynion." Yn Lladin fel hyn :—

"Accipite vexilla cœlesti benedictione sanctiſicata, sintque inimicis populi Christiani terribilia ; et det vobis Dominus gratiam, ut, ad ipsius nomen et honorem, cum illis hostium cuneos potenter penetretis incolumes et securi."

Ar gais cyfaill yr ydwyf yn ei anfon,

J. JONES.

GWRTEITHIAD Y MEDDWL.—Dywedir gan Siarls XII. o Sweden, nad oedd yr hwn sydd anwybodus o'r gelfyddyd rifyddegawl ond haner dyn. Gyda pha gymmaint yn ychwaneg o reswm y gellir cymhwyso y dywediad at yr hwn a ddyga gydag ef i'w feddrod hadau esgeulus ac anfuddiol, cynneddfau ag yr ymddibynai arno ef ei hun i'w meithrin i addfedrwydd, a ffrwythau pa rai a roddent ychwanegiadau mwy gwerthfawr at ddedwyddwch dynolryw, na'r holl felysweddau moethus ag sydd gan awdurdod a chyfoeth i'w cyfranu.—*Dugald Stewart.*

YMROAD CYFAN-GWBL.—Ychydig ellir wneyd yn dda, heb fod yr holl feddwl yn ymosod ar y gorchwyl.—*Johnson.*

ATHRYLITH.—Dysgawdwr clodwiw, a llywydd coleg, a ddarluniai athrylith yn "allu i wneuthur ymdrechiadau."

CNAU FFRENGIG.

[*Walnuts—Juglans.*]

Y Gollen, ar yr hon y tyfant y ffrwythau hyn, a adwaenir yn ddigon da i'm esgusodi am beidio cynnig desgrifiad o honi. Y cnewyll ydynt, mewn amryw bethau, yn gyffelyb i'r *Almonau*, Tynir cryn fesur o olew o honynt, trwy wasgiad, o ansawdd tebyg i'r perolew. Tueddu yr olew hwn i ystwythau, nawseiddio a thyneru y cnawd yn allanol, a phylu llymder symbylawl gwŷon llymsur yn fewnol; ac felly o wasanaeth mawr mewn poenau ac enyniadau coluddol, poethiant y dwfr-bibau, crygni a pheswch. Cyfrifir i'r pren, y dail a'r ffrwythau, y fath lechres anferth o rinweddau, rhai o honynt yn ddigon gwrachaidd i adnabod eu *stamp*—megis, pe'u cymmerid yn y boreu, ar gylla gwag, y rhagflaenid effeithiau pob math o wenwyn, brathiad nadroedd, cwn cynddeiriog &c., am y diwrnod hwnw—fel y tybiais y baasai yn wawd i ddarllenwyr yr *Ymofynydd*, i mi en cofrestru yma.

Darllenais yn ddiweddar mewn misolyn Saes'naeg, ‡ fodd i ddarparu Saws (*sauce*) iachus a blasus, o fasgl y cnau hyn; ac er mwyn y cyfrai nas darllenasant ef, rhoddaf y cyfarwyddyd i'w ddarparu i lawr yma:—

Cymmerer o blisg gwyrddion Cnau Ffrengig, ddau alwyn; rhodder hwynt mewn chrochan, a rhodder attynt ddau bwys o halen, a phwyer hwynt gyda llwy neu bwnyr pren, nes eu briwio yn bur fân. Mewn dau neu dri diwrnod, pwyer y cyfan drachefn; a gwnaer hyn bob yn ail, neu bob tri diwrnod, nes dwyn y cyfan yn gyffaith wleb; yr hyn a gymer le mewn o ddau i dri mis. Yna hidler y trwyth trwy hidlyr bridd (*earthen Colander,*) a gadawer y rhan fyddo heb gwbl dyneru yn yr hidlyr, gydag ychydig o halen yn ychwanegol arno, i ddiferu am ddau neu dri diwrnod. Ychwaneger at y gwlybwr hyn, haner peint o winegr da, ychydig o hadau mwsturdd, *allspice* a grawn pypur. Berwer y cwbl, am o gylch punthcng mynud; yna arllwyser ef i lestri cyfleus i oeri; a phan oero, costreler ef, Ceidw am hirfaith amser; ac y mae yn ychwanegiad blasus ac iachus, at fwydgig o bob math.

‡ Groombridge's Family Economist, Aug., 1852.

CNAU ALMONAU.

[*Almonds—Amygdalae.*]

Y mae dau fath o'r tramoriaid hyn, sef, y rhai per, a'r rhai chwerw; ond dywedir, nas gellir canfod unrhyw wahaniaeth rhwng y llwyni a'u cynnyrchant:—a mwy na hyn, honir y cynnyrcha yr un llwyn Almonau per un tymor, a rhai chwerwon y tymor nesaf, ac hyd yn nod, y ddau fath, ar ei wahanol ganghenau, yr un pryd.

Dywedir fod cnewyll yr almon chwerw wedi ei broli yn wenwyn i gŵn; eithr nid yw felly i ddyn, gan y defnyddir ef, yn achlysurol, fel dwfrberai, a chanmolir ef yn fawr gan yr enwog Boerhave, fel y cyfryw.

O'r cnewyll y gwasgir y perolew (*oleum amygdalinum*) o'r rhai chwerwon yn gystal a'r rhai per, gan nad oes mymryn o wahaniaeth rhwng eu holew.

Am rinweddau yr olew hwn, y mae yn cyduno, agos yn hollawl. a'r nn a enwyd uchod, megis y sylwyd yn barod.

Modd bynnag y Perolew (*sweet oil*) a ddefnyddir amlaf mewn Chwistrellai (*Glyster*).

CODWARTH.

[*Deadly Nightshade—Solanum Lethale.*]

Gwenwyn marwol, cofier, yr hwn a dŷf yn wyllt ar hyd y maesydd, mewn amryw fanau. Mae iddo ddail pigfeinion, mawrion, gydag ymlau bylchog a lliw gwyrdd pruddaidd, a blodau cau, hirion, o liw cochlas anhyfryd, yn tyfu yn gydgymmysg a hwynt. Mae natur wedi llunio a lliwio y llysieuyn, yn y fath ddull gwrth-darawol ac anhyfryd, fel mae ei ymddangosiad yn rhybyddiol. Canlynir y blodau gan y grawn, y rhai a'u cymmeryd i'r cylla, a achosant syfrdandod a dyrysiad y cynneddfau yn fuan, yr hyn a ganlynir gan wallgofrwydd, cynddaredd a marwolaeth. Defnyddir y dail yn allanol, at y Caner, a dywedir ei fod yn llesol.

Dylid gofalu na adawir i'r llysiau dinystriol hyn dyfu yn agos i dai anneddu, yn enwedig os o fewn cyrrhaedd plant.

CORN CARW MÔR.

[*Samphire—Crithmum, seu, Foeniculum maritimum, minus.*—C. B.]

Y dail a ddefnyddir. Hoffa greigiau y môr i dyfu arnynt, ac yn y fath sefyllfa,

fynychaf, ag y caffo ei olchi gan y llawn.

Tyf yn golofau gwyrddion a thyner, o hanner llath i ddwy droedfedd o hyd; gan fwrw allan ganghenau, o'r gwaelod i'r brig: gorchuddir y golof a'i changhenau â dail tewion, crynion, o liw gwyrdd dwfn, yn llawn sudd, o flas poethlyd tra hyfryd. Ei flodau gwynion a doant flaenau y golof a'i changhenau, yn bentyriau tlysion, a chanlynir hwynt gan hadau mawrion tebyg i ciddo'r Ffenigl ond eu bod lawer yn fwy: mae'r hadau yn aeddfed tua chanol Awst. Defnyddid y llysieuyn iachus hwn yn amlach yn yr oesoedd a aethant heibio nac a wneir yn awr. Byddai ein henafiaid yn anturio tori eu gyddfau wrth chwilio am dano, ac anami y bwytëid cigfwyd hebddo. Mae iddo ansawdd gyllâol, ryddâol a dwfrberol.

CRAFANC Y FRAN.

[*Crowfoot* or *Butter cups—Ranunculus.*]

Gelwir y llysieuyn hwn hefyd wrth yr enwau canlynol;—yr egyllt—troed y frân—pencuriaid—chwŷs mair—blodau'r ymenyn, &c. Llysieuyn yw, a chynnifer o fathau o honaw ag sydd o enwau iddo. Rhai rhywiau o hono ydynt ddiniwed, ereill ydynt beryglus i'r eithaf, i'w cymmeryd i'r cylla. Anami y ceir sefyllfa yn Nghymru, yn enwedig mewn caëau porfa llaith neu sych, na welir ef—hâf a gauaf. Blodeua yn gynar yn y gwanwyn, ac y mae yn aros yn ei flodau am hir amser.

Y rhywogaeth fwyaf defnyddiol, fel meddyginiaeth, a dyf ar ddoldir llaith; ei golof a dyf i droedfedd neu fwy, o hyd, gan fwrw allan rif o ganghenau, y rhai ynt grynion, o ran ffurf, ac o liw gwyrdd gwelw; anfynych y safant yn syth, eithr ymblethant a'u gilydd yn bentwr dyryslyd ar hyd y ddaear. Y dail ydynt ranedig i dri neu ychwaneg o ddarnau hirfeinion, ar ddull ol troed aderyn, oddi wrth hyn cant eu henw; eu lliw sydd wyrdd tywyll, gydag ysmotiau goleu. Y blodau, y rhai a dyfant ar flaenau y cyrs a'r canghenau, ydynt o gylch maint swllt, ac mor felyn a disglaer a'r aur; canlynir hwynt gan gnapau geirwon a phigog, y rhai a gynnwysant yr hâd.

Mae y llysieuyn o ansawdd boeth ac ysol; ac o'r herwydd ni ddylid, un amser, ei gymmeryd i'r cylla; oblegid, dim ond ei osod ar flaen y tafod, pothella ef, mewn ysbaid fer.

Dywedir fod llŷsblastr o'r dail îr, ac ychwanegu atto ychydig o beilliaid mwstardd, yn llawer amgenach pothellai, na'r un a ddefnyddir yn gyffredin: gwna ei waith yn llawer cynt, meddir, ac am hyny mae yn llawer gwell yn y cyfryw achosion ag a ofynant effeith union-gyrchol; megis y Parlys neu y menyddwst *(the apoplexy.)*

Y mae y llysieuyn hwn yn un cyffyr yn y pylor ŷsol, a ddefnyddid yn aml gynt, i ddifa y Caner, ac a elwid Plunket's powder.

Ysolyr cryf, mae'n ddiamman, ydyw, ond mae gwreiddiau y clefyd ofnadwy hyny wedi profi eu hunain yn gryfach, ysywaeth, ganoedd o droion. Modd bynnag, dymma fel y darparir yr ysolyr—

Cymmerer o ddail Troed-y-Fran,

Dail Ffenigl y cŵn. . Owns o bob un.
Arsenig gwyn. . . . . un Dram.
Peilliaid Llosfaen . . pum Ysgriwpl.

Ysiger y llysiau nes byddont yn dyner, a chymmysger y cyfferi ereill gyda hwynt, nes eu gwneud oll yn doesyn tyner; ffurfier ef yn belau, a sycher hwynt yn yr haul.

I'w ddefnyddio, cymmerer un o'r pelau, a chymmysger hi a melyn ŵy, nes ei wneud yn blastyr; lleder hwn ar bledren mochyn, a chymmhwyser ef ar y caner; gadawer ef i aros nes braeno y caner o'r gwraidd, ac y byddo yn barod i syrthio ymaith. Gau mai arsenig gwyn yw un o'r cyfferi a wna yr ysolyr uchod, GOFALER nad elo dim o hono i'r *cylla*, nac hyd yn nod i'r *genau*, rhag MARWOLAETH.

CRIBAU ST. FFRAID.

[*Betony—Betonica Sylvestris.*]

Y Ddanogen neu Cribau St. Ffraid, sydd lysieuyn gwyllt tlws, gyda thyswâu o flodau glasgoch prydferth, yn hoffi cysgod coedydd neu gloddiau i dyfu danynt. Mae iddo golof hedronglog, galed, wydn, dywyll a blewog, o droedfedd i ddwy o hyd, heb nemawr o ddail arni; ar ei blaen y tyf lloweth o flodau gwepiog, cochlas, tebyg i flodau y Mintys, ond yn fwy o faint. Y dail a godant oddiar y gwreiddyn, yn dwmpath oddi-

amgylch i fôn y golof; pob dalen yn sefyll ar golof, o dair neu bedair modfedd o hyd, o'i heiddo ei hun: y dail ydynt hirgulion, lletach wrth y bôn na'r blaen, ond nid ynt flaenfain chwaith, eu hymmylau wedi eu mânfylchu, a'u gwyneb yn arw a blewog; eu lliw a amrywia yn ol sefyllfa eu tyfle, ond y maent fynychaf yn wyrdd tywyll.

Y brif golof a wywa ac a dderfydd y gauaf; eithr y dail a geir yn wyrddion trwy y gauaf, oddieithr ei fod yn anarferol o erwin.

Dylid casglu y dail cyn y blodeuont, yr hyn a wnant yn Mehefin; sycher hwynt yn y cudd. Y mae canmoliaeth uchel gan rai, hyd yn nod y dydd heddyw, i'r Ddanogen, rhag anhwylderau y pen, a'r giau; eithr ar ba sail, ni chefais fy hun, gyfle etto i wybod. Dywed Sir John Hill, ei fod yn ddigon effeithiol i wellhau gwayw pen mwyaf ystyfnig, ond ei ddefnyddio fel te, am ysbaid resymol o amser. Mae pylor wedi ei wneud o'r dail sychion, yn drewlwch rhagorol; nid am fod unrhyw ansawdd symbylol yn y llysieuyn, ond oblegid y coglcisia y mânflew a dyfant ar y dail, bilen y ffroenau.

CROGEDYF.

[*Drop-wort—Filipendula.*]

Planhigyn gwyllt tra phrydferth, gyda cholof gron rygnog, syth a chaled, yn ymranu yn ganghenau, heb ond ychydig o ddail yn eu harwisgo; tyf i ddwy droedfedd o uwchder. Ar ei blaen (ac ar flaenau y canghenau hefyd) y croga tyswâu o flodau bychain, tlysion ac aroglber; pob blodyn gynnwysa bump o flodeuddail, a chanol y blodeuyn a gyfansoddir o graiddben tyner, fal llygad y dydd, allan o'r hwn y tyf mân edef. Y blodau ydynt wynion oddifewn, a choch, yn aml, oddi allan. Y dail ydynt yn asgellog, yn gyffelyb i ddail Tansi: y darnau ymlfylchog yn sefyll yn barau ar asen ganol—rhai bychain a mawrion bob yn ail. Y cnŵd mwyaf o ddail a dyfant oddiar y gwreiddau; y rhai ydynt amryw gnapau bychain, o liw dû, yn cael eu cyssylltu a man edafedd.

Y gwreiddau a ddefnyddir. Y maent yn rhai rhagorol dda rhag y Graianwst Gellir cymmeryd pylor wedi ei wneud o'r gwreiddau, neu fwydiad o honynt mewn dwfr berwedig. (Gwel ragor ar y Crogedyf yn fy llythyr nesaf.)

D. L. Moses.

Hanesion Cartrefol a Thramor.

CYFARFOD CWARTEROL YN Y NOTTAGE

Mr. Golygydd—Dymunaf hysbysu y bydd y gwasanaeth i ddechreu diwedydd dydd Mercher (Medi 29) am 6 o'r gloch; a borau dydd Iau, am 11 o'r gloch. Disgwylir y bydd pregethu yn Saesneg a Chymraeg. Yr wyf yn gobeithio y bydd i bawb a allont, o'r Gweinidogion, gyrhaeddyd y *Nottage* yn gynnar dydd Mercher.

Yr eiddoch yn barchus,

Titus Lloyd.

Nottage, ger Porthcawl, Awst. 21, 1852.

AGORIAD RHEILFFORDD Y DEHEUDIR.

Y mae yn mron yn sicr y bydd y Rheilffordd uchod wedi cael ei hagor o Abertawe i Gaerfyrddin, cyn yr ymddengys ein Rhifyn nesaf. Enwir y 14eg o Fedi.

AGORIAD Y SENEDD.

Dywed y *Morning Herald*, y bydd y Senedd Ymerodrol i gael ei hagor gan y Frenhines yn bersonol, ar ei dychweliad o Scotland, yr ail wythnos yn Mis Tachwedd.

YMFUDIAETH.

Y mae yn awr ymron yn sicr y bydd cynnyrch y Pytatws eleni trwy'r deyrnas i droi i maes yn ddiffygiol mwy neu lai. Os bydd y colled yn fawr, bydd yn fwy na thebyg i ychwanegu at yr Ymfudiaeth anferthol sydd wedi ac yn cymeryd lle o'r Iwerddon. Fath gyfnewidiad sydd wedi dyfod dros ein gwlad! Ychydig o flynyddau yn ôl, yr oedd lluosogiad y boblogaeth yn wrthrych ofn a phryder gyda llawer. Mor ddirfawr oedd y cynnydd fel yr ofnid ein bod yn nesâu yn gyflym at y terfyn, pan y byddai nifer mawr o'r bobl i ddioddef o ddiffyg gwaith y moddion cynnaliaeth. Yn yr Iwerddon yn enwedig ystŷrid yr amgylchiad fel yn gosod cyfiwr y trigolion tuhwnt i feddyginiaeth. Yn Nghymru a Lloegr hefyd yr oedd y corff o weithwyr, y radd iselaf yn neilduol, wedi eu dwyn i gyfiwr mor isel fel ag i ymyiu ar

wanobaith ac enbydrwydd. Y mae rhagluniaeth mewn ffordd ryfedd annisgwyliadwy wedi agor drws er esmwythâd i lawer oedd oeddent dan eu baich neu dan eu hofnau, a gobeithio y try hyn i maes er gwellhâd parhâus, i'r lluoedd sydd yn awr yn ymadael a thir eu gwlad ac i'r rhai sy'n aros yn ol.

Yr ydym yn bwriadu, mor gynted ag y gallwn, i roddi crynodeb o'r ffeithiau pwysycaf perthynol i'r *Ymfudiaeth*, ynghyd a chyfarwyddiadau i Ymfudwyr. Diau fod amryw o'n darllenwyr yn meddu helaethach gwybodaeth na nyni ar y pen; byddwn yn diolchgar am eu cymmorth. Deisyfwn arnynt i beidio â cholli amser. Y mae miloedd yn ymadael â'r wlad bob wythnos, a miloedd lawer etto yn bwriadu eu canlyn. hyd yma y mae'r newyddion sy'n ein cyrhaeddyd o wledydd yr aur, yn parhâu i fod yn ffafriol. Nid yw y rhai ydynt wedi sefydlu yn Awstralia yn anghofio eu tylwyth gartref. Trwy ymdrechiadau Mr. a Mrs, Chisholm, y mae yn awr gyfleusdra iddynt, yn hwylus ac yn ddiogel, i anfon arian drosodd tuag at gynnorthwyo eu cyfeillion a'u perthynasau i ddyfod attynt. Ac y mae symau mawrion eisioes wedi cael eu derbyn yma i'r pwrpas hyny. Y mae y Gwyddelod wedi hynodi eu hunain am eu hymdrechiadau er cynnorthwyo eu teuluoedd a'u perthynasau i ddyfod attynt o dir en teidau i'r wlad bell. Mewn ychydig fwy na blwyddyn anfonasant drosodd at y pwrpas hyny, *naw can mil o bunnau*. Yr oedd y genedl Wyddelig yn arfer bod yn falch ac yn hoff o'u gwlad. Yn awr edrychant am orphwysfa yn maesydd helaeth America ac Awstralia. Os parha y llif o ymfudwyr o'r Iwerddon, fel y mae wedi bod y blynyddau diweddaf, wrth bob tebygolrwydd cyn pen hir amser bydd y genedl luosog wedi diflanu o'r wlad. Y mae dros dair miliwn o Wyddelod eisioes yn yr Unol Daleithiau. Ac y mae'n debyg fod yno agos i haner miliwn o bobl ag ydynt Gymry o enedigaeth neu o wadoliaeth.

Y CYFANDIR.

Y mae Ymerawdwr Awstria newydd ddychwelyd o'r ymdaith a gymerasai i ymweled a thaleithiau Hungary. Mae'n debyg fod eisiau etto arno i fenthyca arian tuag at achosion ei lywodraeth gaethiwus. Cafodd ei gynt wasanaethydd, y cigydd Hainau, yn ddiweddar ei drin yn arw gan drigolion Brussels. Gwelodd y gwr mai gwell oedd iddo ymadael â'r lle, fel cynt y ffodd o Lundain. Y mae'r Geri marwol (*Cholera*) wedi bod ac yn parhau i wneud difrod dychrynllyd yn y rhan honno o Poland sydd dan lywodraeth Rwssia. Dywedir fod Louis Napoleon ar gymeryd iddo ei hun wraig; perthynas iddo, merch *Grand Duke Baden*, Ac y mae arwyddion lled amlwg ei fod ar fedr yn bur fuan i gymeryd arno y titl o Ymerawdwr.

AMERICA.

Y mae'r cweryl ag oedd wedi dechreu torri allan rhyngom â'r Unol Daleithiau, o achos y pysgodfeydd, wedi cael ei wneuthur i fynu, deallwn.

AFFRICA, &c.

Ymddengys fod y rhyfel rhyngom a'r Caffres, ac a'r Birmans, heb ei derfynu etto. Y mae'r olaf hyd yma wedi bod yn llwyddianus; y blaenaf, yn mhell o fod felly.

Marwolaethau.

BYWGRAFFIAD MR. ROBERT ROBERTS, PANTYGERDINEN.

"If you are not a thinking man,
Why are you a man at all?"

RHAGLITH.—Ymhlith cyfrolau y byd, hwyrach nad oes dim a drinir yn fwy twyllodrus na chofieint neu fuchdraethodau; ac yswaeth, mae y bai gwarthus hwn fel yn myned ar gynnydd yn mhob oes. Pan ddisgyno rhyw un cyfoethog i'r briddell at ei dadau, gelwir y bardd, y cerfiwr, a'r arluniedydd allan—cenir galarelau, cerfir côffeini, a darperir heirdd arluniau o'r ymadawedig, er ysywaeth, wedi yr holl draul a'r drafferth, nas gellir dweud am danynt yn well nac yn ngeiriau yr hyglod Byron—

"Nid pa beth oeddynt yno sydd,
Ond beth ddylasent fod a fydd."

Ac felly twyll yw'r oll!

Dyrchefir enwau dynion na fuont erioed yn deilwng o'r enw, na thebyg i ddynion ond yn unig mewn llun. Gwerir arian lawer am wagedd er boddio perthynasau gwag ac ymffrostgar; twyllir y presenol am eu cymmeriadau; a gwaeth na'r cwbl, dygir i'r oesoedd a ddeuant dystiolaethau ac y bydd agoriad llyfrau y farn a'r ddedryd ddiweddaf yn eu dadseilio idd eu gwaelodion. Ac, ymddengys, mae y cwbl a ddylasid ddweud am danynt, ydoedd,

"Unknown to glory, but upheld by birth."

Heblaw y mawr niwed o'r cam-ddarluniadau cymmeriadol, ymddengys cofadeil a bywgraffiadau am ddynion anheilwng o ran

y gweithredoedd a gyflawnant, er ennill y clodydd a roddir iddynt, yn dwyn effeithiau tra niweidiol; ac yn neillduol pan cyfodir cof-golofnau gorchestol i ddynion gwaedlyd ac uchel gelsiog, oblegyd fod yr olygfa yn creu yn yr edrychwyr awydd i ymhyfrydu yn yr un llwybrau er ennill gwag ogoniant hyd yn nod trwy foroedd o waed. Mae ymddiffyn gwlad a chenedl, pan ymosoder arnynt yn anghyfiawn, yn ganmoladwy i'r rhai a lafuriant er cael ymwared, ond gresyn yw dweud

"The murder of one maketh a villain,
A thousand, a hero."

Y prif bwngc teilyngdod mewn clodydd ydyw eu cael ar sail dda, a'r parhad o honynt a ymddibyna ar gyfiawnder a rhinwedd. Maluria gorseddau yn llwch. Syrth mawredd anheilwng i ebargofiant; ond lawrwydd celfyddyd. Gwyddor, Llenyddiaeth, a Rhinwedd, a barhant yn dragwyddol wyddorion, ac er malurio o'r rhai a'u hennillasant gyda'r cyntefig ddefnydd;

"Chwelir eu llwch i'w waelod,
Y teulu fu gant ail fod."

Gwedi sylwi fel yma ar fuchdraethodau yn gyffredinol, deuaf yn awr at yr un crybwylledig.

Trigai un Robert William yn Pant-y-gerdinen, yn mhlwyf Aberdâr, i'r hwn y bu pump o blant; ond buont feirw pan yn ieuange ond dau, sef, mab a merch, William a Jane Robert; bu farw eu tad pan oedd William oddeutu dair blwydd oed, a'i chwaer, sef Jane—yr hon oedd yn ddall—oedd ryw gymaint yn henach; ail briodedd eu mham yn mhen tair blynedd, ag un Lodwick Sion Meurig, o Gwm Dâr; ac yn mhen deuddeg mlynedd wedi hyny, bu farw eu mham; yna aeth William i sôn am eu hawliau hwy fel plant (yr hyn yn ol cyfiawnder fuasai yn llawer); cawsant eu troi allan yn hollol ddiymgeledd (megis y dengys y bardd yn hedlifedd yn y llineilau isod); priodedd eu llysdad a merch i un Morgan Siencin. Eithr yr oeddid yn barnu fod Lodwick yn perthyn yn agos iddi hi, ynghyd ac un chwaer iddi, pa un oedd yn forwyn gyda hwy, yn enw yr hon, yr ysgrifenwyd y pennillion canlynol at Lodwick:—(barned y darllenydd pa mor agos oedd y berthynas).

Fy nhad a'm brawd-ynghyfraith,
Gwrandewch fy araith i;
Er mwyn fy mam garedig,
A'm chwaer sydd wraig i chwi—
Mi allaf roi 'chwi gynghor,
Os cym'rwch hwn yn gu;
Cyn eloi'n rhy dd'weddar,
A myn'd i'r ddaear ddu.

Er bod'yn rhy esgeulus,
O'm mywyd i fy hun;
'Rwy'n clywed llais cyfiawnder,
Yn galw'n ddwys ar ddyn—
I feddwl am ei ddiwedd,
A hyny mewn iawn bryd;
A gwneuthur gwir uniondeb,
At bawb sy'n byw'n y byd.

Ry'm ymma'n deulu cynnes,
Os gwir yw'r hanes hon—
Fy nhad a'm brawd-ynghyfraith,
Fy chwaer a'm llysfam lôn;
A minnau'n gwneud y bummed—
Er hyn nid y'm ond tri;
Perthynas ddirgeledig,
Os amgen—bernwch chwi.

Er closed yw'r berthynas,
Rwy'n teimlo rhyw beth cas;
Yn crafu fy ngholyddion,
Wrth weled bwrw i mas—
Blant Robert William onest,
A drow'd o dŷ eu tad;
A'u mheddiant gennych chwithau—
Mae hyn yn gwilydd gwlad.

Am hyn fy nhad mewn amser,
O gwnewch gyfiawnder gwiw;
Chwi ellwch ddisgwyl llwyddiant,
Ar foddion gwell i fyw—
Nag eiddo plant ymddifaid,
Peth embaid wrth bob sain,
Yw gwneuthur unrhyw ddirmyg,
Mewn rhyfig ar y rhain.

Mae rhai o'r byd yn credu,
Y dewir cyn bo hir,
I farnu dyn a'i weithred:
Os ydyw hynny'n wir,
Gwell hadling trwy gyfiawnder,
Na llawer ceiniog ddu,
Pan elir i roi cyfrif,
'Nol myn'd i'r bydoedd fry.

Fel hyn, fy nhad, trwy ddamwain,
Cymmerwch gynghor clyd—
Rhowch borsion da i minnau,
Pan elo'i ddechrau'm myd;
'Nol talu'r plant ymddifaid,
A hynny'n fwyn ddifai;
Mi fyddaf foddlon iddo,
Pe byddai'n llawer llai.

Ond wrth weled ymddygiad creulon eu llysdad tuag attynt, tosturiodd ewythr wrthynt, sef, Dafydd Robert, ag anrhegodd William o £100; a darfu i gefnder iddynt, sef, Thomas Rees, yr hwn oedd yn byw ar y pryd hyny yn Llysdŷ, Merthyr (Court House), roddi dernyn o dir i William, yn etifeddiaeth yn Merthyr, ar ba le trwy nerth y cant punt, ynghyd a'i lafurwaith diwyd ei

hun, y dechreuodd adeiladu tai. Ynghylch yr amser hyny, priododd a merch i Thomas Dafydd Miles, Dyffryn, Aberdâr; yno y ganwyd gwrthddrych ein cofiant; a phan oedd ef yn dri mis oed, symmudasant i Ferthyr, i fyw i un o'r tai crybwylledig, yn mha un y cafodd Robert ei ddwyn i fynu, ag y bu, nes ei symmud i'w wely pridd. Cafodd ei ddwyn i fynu mewn gwahanol ysgolion, nes oedd yn ddeunaw oed, fel ag yr oedd ei dad yn amcanu iddo gael scfyllfa o dan Mr. Crawshay; ond wedi holi, cafodd le i ofni y buasai raid iddo fyned yn mhell oddi cartref i gyflawni y swydd appwyntiedig iddo, a'r hyn nis gallasai ei dad gydsyniaw; ond nid hir y bu cyn cael y swydd o bwyso haiarn, yn ngwaith y Gyfarthfa, lle treuliodd ugain mlynedd; wedi hyny trwy weddill ei oes dilynodd yn ddiwyd y gelfyddyd cerfiwr (*Sculptor*), yn yr hon y difyrai ei hun pan yn ieuangc, trwy arfer myned yn aml i gwmpeini Rhys Hywel Rhys. Fel Cymro diledryw, ymdrechai noddi iaith ei wlad a'i genedl—deallai Reolau Barddoniaeth mor dda fel yr ystyriwyd teilyngdod ynddo i fod yn Feirniad mewn Eisteddfodau; perchid ef hefyd fel dyn cywir a gonest, a hollol ddidderbyn wyneb; da fyddai pe gwnai y byd ei efelychu. Yr oedd yn derbynnydd cyson o'r *Ymofynydd*, ag yn attegydd Undodiaeth er ys blynyddau yn Nghapel Twyn-yr-odyn, er mai yn ddiweddar yr ymunodd a hwy. Bu farw y 12fed o Fai, 1852, yn 58 oed, a chladdwyd ef y Sul canlynol yn monwent hen Dŷ Cwrdd Cefncoed-y-cymmer. Ar yr achlysur pregethodd y Parch. G. C. Lunn, oddiar y 24 a'r 25ain o'r bennod gyntaf o Epistol cyntaf Pedr, a'r areithiodd y Parch. O. Evans, ar ael ei fedd. Gadawodd wraig a dau o blant bychain i alaru ar ei ôl. Ymgynnullodd lluaws mawr o bob graddau i'w hebrwng i dŷ ei hir gartref.

Pob gradd, pob oedran yr un wedd,
Er mwynder byd sy'n myn'd i'r bedd;
Y doeth a'r annoeth hefyd roer,
Yn ddi wahan mewn graian oer.

Bu'r olwg ar y bedd, yn wir,
Yn dywyll iawn dros amser hir;
Ond darfu pob anobaith trist,
I bawb a gred yn Iesu Grist.

Os blinder letha hyd y llawr.
Y weddw a'r ymddifad nawr
Mae Tad a'u gwel, a'i wrando'n ddir,
A sych eu deigrau cyn bo hir.

Daw borau caiff rhieni mwyn
A'u plant ail-gwrdd lle na bydd cwyn;
Na neb i ddweud, "yn glaf yr wyf,"
Uwch cyrraedd gofid, poen a chlwyf.

Merthyr. TIMOTHY DAVIES.

Bu farw, ar y 10fed dydd o'r Mis diweddaf (Awst) yn 68 mlwydd oed, Mary Evans, o Dyffryn pedryn, ymhlwyf Llanboidy, swydd Caerfyrddin. 'Roedd y trancedig wedi bod yn aelod brydferth a rheolaidd gerllaw deugain mlynedd yn Eglwys Panteg, a thros y chwech neu y saith mlynedd olaf a'i hoes yn Rhydypark; teimlodd lawer oddiwrth a dywedodd lawer am effeithiau cysurus Undodiaeth yr wythnos a'r dyddiau diweddaf o'i bywyd. Bu farw yn gysurus yn y ffydd broffesodd oddiar yn ieuangc. Pregethodd y Parch. Titus Evans, gwenidog Rhydypark yn ei hangladd, oddiwrth 2 Tim. iv. 7, 8, a chladdwyd hi gyda ei theidiau yn monwent Eglwys Cilrhedyn.

Ar y 5ed o'r mis diweddaf, yn 18 mlwydd oed, Hannah, merch John Jones, Pantycerdyn, Llanfihengel Ystrad, ac ar ol hir gystudd a nychdod yn y darfodedigaeth. Iau canlynol rhoddwyd ei gweddillion i orwedd yn mynwent y plwyf dywededig. Ei rhieni anwyl, a'i chwiorydd mwynion, a'i brawd cariadus, ynt a'u calonau yn ddolurus yn nghyffion oerion hiraeth ar ei hol. Pe buasai dagrau ac ocheneidiau perthynasau, serchogrwydd ac ewyllys da cymydogion, yn ddigon i gadw dynes yn fyw, ni fuasai farw Hannah, CAWR AYRON.

Barddoniaeth.

TRI DOSPARTHIAD AMSER.

AETH HEIBIO—Y PRESENOL—A'R DYFODOL.

LLON amser fy 'ie'ngctyd,
Aeth heibio yn glau,
Pan welid fi'n casglu.
Hardd flodau mis Mai;
Rhodiwn a neidiwn,
Mor gyflym ac hŷdd,
Heb ofid na thrallod,
Na'm calon yn brudd.

A chodwn fy ngolwg
Yn llawen i'r nen,
'R hon chwarddai yn siriol,
Heb gymmwl na llen;
A rhodiwn y ddaear
Mor ysgafn fy nhra'd,
A'r peraidd awelau
A chwythent trwy'r wlad.

Yn dreiddgai fy llygaid,
Heb rydd im' yn llaeth;

'Nawr tymor fy i'eungetyd,
O'm gafael a aeth,
Yr amser a garswn
Gael gweled cyn hyn
Yr wŷn yn adlamu
Ar oehr y bryn.

Ac wrthyf fy hunan
Yn ddiofal gael bod,
I wrando ar odlau
Ednod y coed;
A ffrydiai digrifwch
I'm calon yn llawn,
Wrth rhodio glan Ayron,
Ar ambell brydnawn.

Lle llifai yr afon
A neidiai y pysg,
A dalient y cylion
Ddisgynent i'w mysg;
Fel cysgod neu gwmmwl,
Pan fo ar ei daith;
Darfyddodd fy einioes,
Ei therfyn a ddaeth.

Prudd oriau'r tywyllwch
Sydd 'nawr wedi d'od,
Na mwyniant na phleser,
Nid oes im' yn bod;
Rhyw gaddug orchuddiodd,
Holl degwch y llawr,
A gwagedd o wagedd
Yw'r cwbl yn awr.

Y gruddiau rhosynaidd
A welwyd cyn hyn,
Sy'r awr hon yn rhychiog,
Mae'm hagwedd yn syn;
Pren almon flodeuodd,
F' aelodau sydd grin;
Trallodus yw mywyd
A'm dyddiau sydd flin.

Heb gâr na chydymaeth,
'Roi cymorth wrth raid;
Pawb droesant eu cefnau,
N' lle cymeryd fy mhlaid;
Ac angeu sy'n curo
Fy mhabell bob dydd,
Hi syrthia yn ebrwydd,
Ei defnydd yw pridd.

Ac yna daw amser
I'm etto gael hedd,
A gorphwys yn dawel
Ar waelod y bedd;
A'm henaid a esgyn
Uwch poenau a gwae,
I gol fy anwylyd
I'w wel'd fel y mae.

Le meddaf ddedwyddwch
Nis gwyddys pa faint,
Ddarparodd yr Iesu
Ar gyfer y saint;
A nef y gogoniant,
Ga' fod imi'n dŷ,
Yr amser dyfodol
Fydd oreu i mi.

PEREBIN TACHLOYA, sef
Llanbedr. CAWR AYRON.

YOU ASK ME HOW I LIVE.

ANWYL SYR,—Y llinellau Saesnaeg hyn a adroddwyd wrthyf gan gyfaill, ag wele gynnyg at eu cyfieithu, ag os y bernwch yn addas eu rhoi yn yr *Ymofynydd*, y maent at eich gwasanaeth. Yr eiddoch &c.
Aberdâr. T. J. JONES.

"Living friendly, feeling kindly,
Acting fairly towards men,
Seeking to do that to others
They may do to me again:
Hating no man, scorning no man,
Wronging none by word or deed,
But forbearing, soothing, serving,
Thus I live, this is my creed."

CYFIEITHAD.

Byw'n gyfeillgar, teimlo'n hynaws,
Gwneud cyfiawnder â phob dyn,
Ceisio gwneud i eraill megis
Wyf am wneud â mi fy hun:
Nid cashau na gwatwar un dyn,
Twyllo neb mewn gwaith neu ddwe'd
Ond cyd ddwyn, diddanu, gweini,
Felly'n byw, hyn yw fy nghred.

G. F.

At ein Gohebwyr.

DERBYNIADAU Y MIS.—*T. Stephens; J. Jones; J. Rhys; D. L. Moses; T. Evans; T. Lloyd; T. Davies; E. Glan Cynon; Y Carw; D. Caeglas, a C. Ayron.*

C. Ayron.—Nis gallwn gyhoeddi haner y Barddoniaeth a anfonir attom, heb ychwanegu at faintioli ein Cyhoeddiad, yr hyn ni oddef ein hamgylchiadau presenol. Caiff "yr Hanes" ymddangos oni bydd yn rhy faith, neu yr ymddengys i ni yn anghymwys.

Y Carw.—Yr y'm ni o'r farn, na fyddai cyhoeddi eich Gofyniadau i atteb un diben da. Yr ydym wedi darllen yr Areithiau cyfeiriedig yn y Newyddiaduron; ond diolch i chwi yr un pryd.

PEN-Y-BONT, ARGRAFFWYD GAN W. LEYSHON.